Gweinyddiaeth CYFIAWNDER
Ministry of JUSTICE

COMISIWN gwasanaethau cyfreithiol

Diwygio Cynllun Ffioedd Bargyfreithwyr Teulu ar gyfer Cymorth Cyfreithiol

Papur Ymgynghori CP12/08
Cyhoeddwyd ar 18 Mehefin 2008
Daw'r ymgynghoriad hwn i ben ar 10 Medi 2008



Gweinyddiaeth CYFIAWNDER
Ministry of JUSTICE

COMISIWN gwasanaethau cyfreithiol

Diwygio Cynllun Ffioedd Bargyfreithwyr Teulu ar gyfer Cymorth Cyfreithiol

Papur ymgynghori wedi'i lunio gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder a'r Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol.

Mae'r wybodaeth hon ar gael hefyd ar wefan y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn: www.justice.gov.uk ac ar wefan y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol: www.legalservices.gov.uk

Cynnwys

Crynodeb Gweithredol	3
Cyflwyniad	6
Y Cynllun Ffioedd Teulu Graddedig	8
Cefndir y Cynigion Presennol ar gyfer y CFfTG	14
Cynigion yr Ymgynghoriad	19
Holiadur	25
Amdanoch chi	26
Manylion Cysylltu/Sut i ymateb	27
Asesiad Effaith	30
Meini prawf yr ymgynghoriad	41

Crynodeb Gweithredol

Cymorth Cyfreithiol

1.1 Cred y Llywodraeth fod cymorth cyfreithiol yn un o hanfodion sylfaenol y system gyfiawnder, gan alluogi'r rhai na allant fforddio talu am gymorth a chynrychiolaeth gyfreithiol i gael mynediad i gyfiawnder. Adlewyrchir hyn yn y ffaith mai'r system cymorth cyfreithiol yng Nghymru a Lloegr yw'r system a ariennir orau yn y byd. Rydym yn gwario £38 ar gyfer pob un o'r boblogaeth o'i gymharu â rhwng £3 a £4 yn Ffrainc a'r Almaen. Mae hyd yn oed gwledydd gyda system gyfreithiol debyg i'n system ni yn gwario llai: er enghraifft, mae Seland Newydd a Gweriniaeth Iwerddon yn gwario oddeutu £8 y pen.

1.2 Cymorth cyfreithiol yw un o'r meysydd lle gwelwyd y cynnydd mwyaf yn y gwariant gan y sector cyhoeddus dros y 25 mlynedd diwethaf. Mae gwariant wedi cynyddu o £522m yn 1982 (ar brisiau heddiw) i oddeutu £2 biliwn heddiw: cynnydd mewn termau gwirioneddol o 5.7% y flwyddyn.

1.3 Mae'r Llywodraeth yn bryderus nad yw'r gwariant ychwanegol hwn wedi cynrychioli gwerth am arian bob amser, ac felly pwrpas ein diwygiadau yng nghyswllt cymorth cyfreithiol yw cyflawni hynny. Mae hyn yn golygu dau beth yn benodol: helpu mwy o bobl i ddatrys eu problemau o fewn yr adnoddau sydd ar gael, a sicrhau bod cymorth cyfreithiol yn gweithredu'n effeithiol fel rhan o'r system gyfiawnder ehangach. Mae gwerth am arian yn cynnwys pethau megis ansawdd y gwasanaeth, pris, hygyrchedd ac atebolrwydd. Rhagwelir y bydd gwariant ar gymorth cyfreithiol yn aros ar oddeutu £2 biliwn y flwyddyn o ganlyniad i'r diwygiadau.

Diwygio Cymorth Cyfreithiol

1.4 Mae'r cynllun cymorth cyfreithiol sifil – y Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol – yn darparu cyngor a chynrychiolaeth gyfreithiol hanfodol i'r cyhoedd ar nifer o faterion sy'n effeithio ar eu bywydau, o deuluoedd yn chwalu i amddiffyn plant a dal cyrff cyhoeddus yn atebol. Mae'r Llywodraeth yn cydnabod bod yn rhaid darparu'r gwasanaethau hanfodol hyn i safon uchel, i gynifer â phosibl o bobl, ac o fewn cyllideb benodol sy'n darparu gwerth am arian i'r trethdalwyr.

1.5 Er mwyn sicrhau y gall cymorth cyfreithiol barhau i ddarparu gwasanaethau cyfreithiol o ansawdd da i gynifer â phosibl o bobl, mae'r Llywodraeth wedi rhoi rhaglen ddiwygio ar waith i ddiwygio'r ffordd y mae'n talu am wasanaethau cyfreithiol a ddarperir i'r cyhoedd. Ym mis Gorffennaf 2006, cyhoeddodd yr Arglwydd Carter o Coles ei adroddiad, *Legal Aid: A Market-Based Approach to Reform.* Ar yr un pryd, ymgynghorodd y Llywodraeth a'r Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol (*Legal Aid: a sustainable future*) ar symud o'r hen system o dalu i fudiadau di-elw a thwrneiod am wasanaethau cyfreithiol yn ôl cyfraddau fesul awr i gyfres o gynlluniau ffioedd graddedig a safonol.

1.6 Yn hanesyddol, mae darparwyr gwasanaethau cyfreithiol gwahanol (h.y. cwmnïau twrneiod, bargyfreithwyr a Mudiadau Di-elw) wedi cael eu talu ar gyfraddau gwahanol iawn am ddarparu rhai o'r un gwasanaethau. Mae symud tuag at gynlluniau ffioedd safonol yn gwobrwyo'r darparwyr hynny sy'n darparu gwasanaeth effeithiol ac effeithlon, ac yn ysgogi darparwyr llai effeithlon i wella. Hefyd, mae symud tuag at gynlluniau ffioedd safonol yn helpu'r darparwyr i ddeall eu costau busnes eu hunain yn well. Mae hyn yn bwysig wrth i'r Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol barhau i symud tuag at wasanaethau integredig fel y nodir yn y strategaethau teulu a sifil, oherwydd bydd yn rhaid i ddarparwyr ddeall eu costau busnes yn iawn er mwyn gwneud ceisiadau llwyddiannus am barseli gwaith ac, ymhen amser, er mwyn gwneud ceisiadau am y parseli hynny ar sail pris, os bydd y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol yn bwrw ymlaen i gyflwyno'r broses Tendro Gwerth Gorau yn y farchnad gwasanaethau cymorth cyfreithiol sifil yn 2013.

1.7 Cyn 2013 bydd y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol yn ymgynghori â chyrff cynrychioliadol ynghylch y broses Tendro Gwerth Gorau sifil ac, fel y cyhoeddwyd yn *Civil Legal Aid Contracts: the next five years*, bydd yn cynnal treialon ar gyfer tendro gwerth gorau ar gyfer gwasanaethau prif ffrwd mewn nifer bach (dau neu dri) o ardaloedd daearyddol rhwng 2010 a 2013, sy'n cynnig cymysgedd o boblogaethau gwasgaredig a heb fod yn wasgaredig. Bydd y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol yn trafod y meini prawf ar gyfer dewis yr ardaloedd hyn gyda chyrff cynrychioliadol a bydd unrhyw ardaloedd peilot wedi cael eu nodi cyn dyfarnu'r contractau yn 2010, fel bo'r ymarferwyr sy'n llofnodi contractau yn yr ardaloedd hynny yn ymwybodol o'r sefyllfa.

1.8 Yn dilyn yr ymgynghoriad ar gyflwyno cynlluniau ffioedd safonol, cyhoeddodd y Llywodraeth a'r Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol *Legal Aid Reform: the Way Ahead* ym mis Tachwedd 2006. Mae *The Way Ahead* yn amlinellu cynlluniau i fwrw ymlaen â gweithredu cynlluniau ffioedd graddedig a safonol (ac ymgynghoriad pellach ar ffioedd teulu). Ym mis Hydref 2007 cyflwynwyd cynlluniau ffioedd safonol ar gyfer cyngor sifil, gwaith achosion gofal plant, cymorth i deuluoedd (preifat) (cyngor a negodi'n unig), cyfryngu i deuluoedd a mewnfudo a lloches. Ym mis Ionawr 2008 cyflwynwyd cynllun ffioedd safonol ar gyfer gwaith iechyd meddwl.

1.9 Nid arweiniodd y cynlluniau newydd hyn at doriadau yn y gyllideb cymorth cyfreithiol sifil. Dan y cynlluniau newydd byddai'r un faint o arian yn cael ei wario ar bob categori gwaith, yn seiliedig ar yr un nifer o achosion. Petai'r niferoedd yn cynyddu, felly hefyd y gwariant. Ar 10 Rhagfyr 2007, cyhoedd y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol asesiad effaith gronnol. Dangosodd yr asesiad hwn y byddai oddeutu 60% o ddarparwyr sifil sy'n gyfrifol am oddeutu 60% o waith sifil yn derbyn rhagor o incwm dan y cynlluniau newydd, a hynny heb addasu'u busnesau. Gallai'r darparwyr hynny a fyddai'n addasu i'r cynlluniau newydd ac yn gwella'u heffeithlonrwydd fanteisio hyd yn oed yn fwy.

Cynllun Ffioedd Teulu Graddedig (CFfTG)

1.10 Yn ystod yr ymgynghoriad *Sustainable Future,* derbyniodd y Llywodraeth sylwadau cryf yn nodi mai doeth fyddai edrych ar daliadau ar gyfer gwaith

teulu yng nghyswllt twrneiod a bargyfreithwyr. Felly, yn *The Way Ahead,* nodwyd ein bwriad i gynnal ymgynghoriad ar eiriolaeth teulu yn ystod haf 2007, ac wedyn rhoi ar waith, yn Ebrill 2008, gynllun eiriolaeth sengl newydd ar gyfer twrneiod a bargyfreithwyr. Byddai'r cynllun newydd yn cael gwared â'r anghydbwysedd presennol rhwng taliadau i fargyfreithwyr a thwrneiod sy'n eiriolwyr am yr un gwaith, a symud at dalu'r un peth am y gwasanaeth a dderbynia'r cleient, ni waeth pa fath o eiriolwr sy'n ei ddarparu.

1.11 Mae'r dull gweithredu hwn yn adlewyrchu'r newidiadau yn y farchnad gwasanaethau cyfreithiol, lle mae twrneiod fwyfwy yn cael eu cydnabod fel eiriolwyr yn yr uwch lysoedd, yn ogystal â diwygiadau arfaethedig a fydd hefyd yn effeithio ar y farchnad hon. Ar hyn o bryd y mae 917 o dwrneiod[1] gyda hawliau i ymddangos yn y llysoedd uwch. Mae'r Awdurdod Rheoleiddio Twrneiod yn ymgynghori ar gynigion ar gyfer safonau cymhwysedd newydd y bwriedir iddynt fod yn feincnod ar gyfer twrneiod sy'n gweithredu fel eiriolwyr yn y llysoedd uwch. O flwyddyn nesaf ymlaen, bydd twrneiod yn gallu ffurfio partneriaethau amlddisgyblaethol gyda bargyfreithwyr ac yn raddol rydym yn gweld y gwahaniaethau traddodiadol rhwng dwy gangen y proffesiwn yn diflannu, ac mae cynllun eiriolaeth wedi'i gysoni yn adlewyrchu'r newidiadau pwysig hyn. Hefyd, bydd cynllun wedi'i gysoni'n helpu rhagor ar yr ymgeiswyr mewn amgylchedd o gystadlu am waith, pa un ai yw hyn gydag elfen bris neu beidio.

1.12 Yn ystod 2007 dygwyd achos cyfreithiol yn erbyn cymal diwygio'r contract yng Nghontract Unedig newydd y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol, a gyflwynwyd ar gyfer darparwyr sifil yn Ebrill 2007. Mewn dyfarniad gan y Llys Apêl ym mis Tachwedd 2007, nodwyd bod y cymal diwygio yn anghydnaws â chyfarwyddeb caffael contractau cyhoeddus yr Undeb Ewropeaidd a rheoliadau'r DU. Yn dilyn y dyfarniad, cytunodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder, y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol a Chymdeithas Cyfreithwyr Cymru a Lloegr, ar 2 Ebrill 2008, ar y ffordd orau o fwrw ymlaen ar gyfer darparwyr cymorth cyfreithiol sifil yng ngoleuni'r dyfarniad. Roedd rhan o'r cytundeb yn cynnwys gohirio gweithredu'r cynllun eiriolaeth teulu newydd tan Ebrill 2010.

1.13 Un canlyniad y gohirio hwn yw bod bargyfreithwyr yn dal i gael mwy o arian na thwrneiod am yr un gwaith eiriolaeth am gyfnod hwy na'r disgwyl a'r bwriad. Mae'r ddogfen ymgynghori hon yn cyflwyno cynigion ar gyfer cau'r bwlch hwnnw'n rhannol.

1.14 Bydd y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol yn cynnal ymgynghoriad, o fis Medi 2008, ar gynigion ar gyfer taliadau eiriolaeth teulu i dwrneiod a bargyfreithwyr o Ebrill 2010 ymlaen. Mae'r cynigion hyn yn debygol o awgrymu ailstrwythuro neu gael gwared â'r Cynllun Ffioedd Teulu Graddedig, a chael gwared â rhai neu'r cyfan o'r gwahaniaethau yn y taliadau rhwng twrneiod a bargyfreithwyr sy'n gwneud gwaith eiriolaeth teulu.

[1] Ffynhonnell – Cronfa Ddata Cymdeithas y Cyfreithwyr Mai 2008.

Cyflwyniad

2.1 Mae’r papur hwn yn nodi ar gyfer ymgynghori arnynt yr opsiynau ar gyfer lleihau taliadau cymorth cyfreithiol bargyfreithwyr teulu a wneir dan y Cynllun Ffioedd Teulu Graddedig (CFfTG). Mae angen gwneud hyn i helpu i gysoni’r cyfraddau talu ar gyfer eiriolwyr gwahanol sy’n gwneud yr un gwaith, ac er mwyn i’r gronfa cymorth cyfreithiol allu gweithredu yn ôl ei modd.

2.2 Anelir yr ymgynghoriad at gyrff cynrychioliadol, bargyfreithwyr, ymarferwyr sy’n gweithio ar eu pennau'u hunain neu ymarferwyr mewn siambrau, twrneiod teulu, awdurdodau cyhoeddus perthnasol, y farnwriaeth a'r cyhoedd yng Nghymru a Lloegr.

2.3 Cynhelir yr ymgynghoriad hwn yn unol â’r Cod Ymarfer ar Ymgynghori a gyhoeddwyd gan Swyddfa’r Cabinet ac mae’n dod o fewn cwmpas y Cod. Mae’r meini prawf ar ymgynghori, a restrir ar dudalen 41, wedi cael eu dilyn.

2.4 Mae Asesiad Effaith wedi'i gwblhau ac mae’n nodi ei bod yn debygol yr effeithir yn benodol ar fargyfreithwyr teulu. Mae’r cynigion yn debygol o arwain at arbedion ychwanegol i’r sector cyhoeddus. Mae Asesiad Effaith wedi’i gynnwys yn nhudalen 34. Hefyd, mae llawer o'r data a'r dadansoddiad sydd yn yr Asesiad Effaith wedi'i nodi yn y papur ymgynghori hwn er hwylustod. Croesawir sylwadau ar yr Asesiad Effaith. Mae copïau o’r papur ymgynghori yn cael eu hanfon at:

Cyngor y Bar

Cymdeithas Cyfraith Teulu y Bar

Cymdeithas Cyfreithwyr Cymru a Lloegr

Grŵp Ymarferwyr Cymorth Cyfreithiol

Resolution

Cymdeithas Cyfreithwyr Plant

Cymdeithas Cyfreithwyr Cam-drin Plant

Grŵp Gweithredu yn erbyn Tlodi Plant

Sefydliad Clercod Bargyfreithwyr

Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd

Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Plant

CAFCASS

CAFCASS Cymru

Llywodraeth Cynulliad Cymru

Y Gwir Anrhydeddus Arglwydd Ustus Leveson, yr Uwch Farnwr Llywyddol

Y Gwir Anrhydeddus Syr Mark Potter, Llywydd yr Adran Deulu

Arglwydd Ustus Thorpe

Cymdeithas y Barnwyr Rhanbarth

Cymdeithas yr Ynadon

Grŵp Meistri'r Uchel Lys

Cyngor y Barnwyr Cylchdaith

Fforwm Cadeiryddion Mainc Cenedlaethol

Y Swyddfa Gyfathrebu Farnwrol

Cyngor y Barnwyr

Cyngor Cyfiawnder Teulu

Syr Mark Potter, Llywydd yr Adran Deulu

Cyngor y Barnwyr

Swyddfa Costau'r Goruchel Lys

Cymdeithas y Bargyfreithwragedd

Cymdeithas y Cyfreithwyr Du

Rhwydwaith Twrneiod Du

Cymdeithas Cyfreithwyr Asiaidd

Cymdeithas Cyfreithwyr Mwslimaidd

2.5 Fodd bynnag, ni fwriedir i'r rhestr hon fod yn gyflawn nac yn gyfyngedig, a chroesewir ymatebion gan unrhyw un sydd â diddordeb neu farn ar y pwnc a drafodir yn y papur hwn.

Y Cynllun Ffioedd Teulu Graddedig

3.1 Cyflwynwyd y Cynllun Ffioedd Teulu Graddedig (CFfTG), sy'n berthnasol i Gymru a Lloegr, ym Mai 2001, ar ôl ei ddatblygu dros sawl blwyddyn, mewn ymgynghoriad agos â Chyngor y Bar a Chymdeithas Cyfraith Teulu y Bar. Mae'n seiliedig ar gyfraddau sefydlog ar gyfer gweithgareddau penodol (swyddogaethau) a gyflawnir mewn achos, yn ddibynnol ar gymhlethdod a hyd yr achos.

3.2 Y gobaith oedd y byddai'r CFfTG yn rhoi mwy o reolaeth i'r Adran dros wariant, caniatáu iddo ragweld gwariant cronfeydd cyhoeddus ar achosion teulu yn fwy cywir, a thalu'n deg i fargyfreithwyr am waith a wneir. Hefyd, o'i gymharu â threfniadau blaenorol, mae bargyfreithwyr yn derbyn taliadau'n gyflymach ac yn elwa o lif arian gwell.

3.3 Yn dilyn cyflwyno'r CFfTG, cytunodd yr Arglwydd Ganghellor bryd hynny, yr Arglwydd Irvine, i adolygiad ar y cyd rhwng yr Adran a'r Bar o'r cynllun ar ôl iddo fod yn weithredol am flwyddyn. Dechreuodd yr adolygiad hwn ym Mai 2002. Ymgynghorwyd ag aelodau'r farnwriaeth, bargyfreithwyr a thwrneiod am strwythur a chyfraddau'r CFfTG. Roedd yr adolygiad hefyd yn cynnwys ymgynghoriad ysgrifenedig a oedd yn cwmpasu, ymysg eraill, Barnwyr Rhanbarth, Cylchdaith ac Uchel Lys, y Gwasanaeth Llysoedd, a sefydliadau megis Cymdeithas Twrneiod Cyfraith Teulu (Resolution erbyn hyn), Grŵp Ymarferwyr Cymorth Cyfreithiol, Cymdeithas Clercod Ynadon, Cymdeithas y Gyfraith, Cyngor y Bar a Chymdeithas Cyfraith Teulu y Bar, ynghyd ag ymarferwyr unigol.

3.4 Tra oedd yr adolygiad yn mynd rhagddo, er mwyn ymgorffori'r gwaith i'w wneud dan y Protocol newydd - *Protocol for Judicial Case Management in Public Law Children Act Cases*, rhoddwyd diwygiadau i'r CFfTG ar waith o 1 Tachwedd 2003, yn dilyn ymgynghori.

3.5 Yn 2004, roedd dadansoddiad fel petai'n dangos bod y CFfTG wedi bod yn fwy llwyddiannus nag a fwriadwyd yn rheoli gwariant. Ymddangosai bryd hynny fod y CFfTG wedi lleihau gwariant oddeutu 13% o'i gymharu â'r gwariant dan y cynllun ex post facto, yn hytrach nag oddeutu 5% fel y rhagwelwyd. Cytunodd yr Arglwydd Ganghellor bryd hynny i adolygu rhagor ar y cynllun, gan gynnwys cynnydd mewn rhai ffioedd, er mwyn cynyddu gwariant y CFfTG oddeutu 8% o fis Chwefror 2005 ymlaen.

3.6 Er nad oedd tystiolaeth i ddangos nad oedd achosion teulu'n cael cynrychiolaeth briodol dan y CFfTG, cyflwynwyd tystiolaeth ar y pryd fod twrneiod yn teimlo ei fod yn fwy anodd cael cwnsler ar gyfer achosion teulu, ac roedd hyn yn ffactor hefyd yng nghyswllt codiadau yn y ffioedd. Cyflwynwyd arolwg o gwmnïau twrneiod a oedd dan gontract i'r Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol ar gyfer gwaith teulu, arolwg a gyflawnwyd gan y Ganolfan Genedlaethol dros Ymchwil Cymdeithasol, ac adroddiad gan Frontier Economics (a gomisiynwyd gan yr Adran Materion Cyfansoddiadol)) – *A market analysis of legal aided services provided by barristers* (Mawrth 2004). Yn y ddau adroddiad nodir i dwrneiod ddweud bod

cyfran o Fargyfreithwyr Teulu'n fwy anfodlon gwneud gwaith a ariennir gan y pwrs cyhoeddus yn dilyn cyflwyno'r CFfTG.

3.7 Nododd adroddiad Frontier Economics fod 37% o dwrneiod wedi dweud iddynt ar o leiaf un achlysur yn y flwyddyn flaenorol (2003) geisio cael gafael ar wasanaethau bargyfreithiwr a oedd yn meddu ar y profiad a'r arbenigedd priodol a heb allu sicrhau eu gwasanaethau. O'r 18,570 achos teulu a gynhaliwyd gan y twrneiod yn yr arolwg, mewn 420 achos, ni lwyddodd y twrneiod i gael gafael ar wasanaethau bargyfreithiwr penodol (2.3%) (er eu bod o bosibl wedi cyfarwyddo bargyfreithwyr gwahanol wedyn). Yn yr achosion hyn, dywedwyd i hyn beri anfantais mewn 260 o'r 420 achos (oddeutu 1% o gyfanswm yr achosion yn yr arolwg). Yn y mwyafrif llethol o achosion, nid achoswyd anfantais, ond roedd ymdeimlad, ar sail yr adroddiadau anecdotaidd hyn, fod rhai bargyfreithwyr teulu'n rhoi gorau i wneud y gwaith hwn.

3.8 Mae'r adroddiad yn amodol ar gafeatau pwysig:nad yw'r canlyniadau'n cyflwyno rhagamcanion cywir o *raddfa*'r tan gyflenwi. Y dylid rhoi ystyriaeth i ddwy ffynhonnell bosibl ar gyfer gwallau:

> "roedd yr arolwg yn gofyn i dwrneiod roi eu barn ar arbenigedd a phrofiad bargyfreithwyr yr oedd yn rhaid eu cael i ddarparu eiriolaeth a chyngor ar achosion penodol. Gan nad y twrneiod sy'n talu ffioedd y bargyfreithwyr (ar gyfer y rhan fwyaf o achosion), efallai y cymhellir twrneiod i geisio gwasanaethau bargyfreithwyr gyda'r profiad a'r arbenigedd mwyaf ac efallai y gellir gofyn y cwestiwn ai hyn yw'r arbenigedd a'r profiad gofynnol", a
>
> "mae'r arolwg yn dibynnu ar dwrneiod yn datgan yn gywir nifer yr achosion a gafwyd yn 2003, nifer yr achosion y ceisiwyd gwasanaethau bargyfreithiwr ar eu cyfer a nifer yr achosion lle na lwyddwyd i sicrhau gwasanaethau bargyfreithiwr. Hefyd, o ran nifer yr achosion lle defnyddiwyd bargyfreithwyr ar eu cyfer, dim ond yn eang yr hysbyswyd amcangyfrifon"

3.9 Dengys ymchwil[2] a gynhaliwyd yn 2007 gan yr Athro Fenn o Ysgol Fusnes Prifysgol Nottingham fod y defnydd o gwnsler ar gyfer achosion teulu, a gwariant ar hynny, wedi cynyddu ymhell cyn i'r ffioedd gael eu codi yn 2005. Efallai fod y cynnydd yn y defnydd o gwnsleriaid a ddangosir yn yr astudiaeth hon yn dangos nad oedd yr adroddiadau anecdotaidd a wnaed gan dwrneiod i Frontier Economics yn adlewyrchu realiti'r cyflenwad. Dengys yr ymchwil hwn fod bargyfreithwyr yn ymgymryd fwyfwy â'r gwaith hwn, hyd yn oed ar y cyfraddau llai. Rydym yn hyderus y byddai'r cynigion yn yr ymgynghoriad yn helpu i reoli gwariant cronfeydd cyhoeddus, sicrhau gwerth am arian, a hefyd sicrhau bod gwasanaethau'n dal i gael eu darparu i gleientiaid gan nifer digonol o eiriolwyr cymwys.

---

[2] Comisiynwyd gan y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol, sydd ar gael yn www.legalservices.gov.uk.

Newidiadau i'r Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus

3.10 O 1 Ebrill 2008, cafodd y *Protocol ar gyfer Rheoli Achosion Barnwrol mewn Achosion Cyfraith Gyhoeddus sy'n ymwneud â'r Ddeddf Plant* ei ddisodli gan yr *Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus (ACG*). Protocol rheoli achos barnwrol diwygiedig yw'r ACG a'r bwriad yw lleihau oedi mewn achosion cyfraith gyhoeddus yn ymwneud â phlant, gan gynnwys achosion gofal, a gwella prosesau gan ddwyn budd yn benodol i deuluoedd a phlant sy'n rhan o'r achosion hyn, ond hefyd i'r llysoedd a'r gronfa cymorth cyfreithiol.

3.11 O 1 Ebrill 2008, diwygiwyd y CFfTG er mwyn caniatáu taliadau i fargyfreithwyr sy'n gweithredu dan yr ACG, a darparodd y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol arweiniad i ymarferwyr. Cadarnhaodd yr arweiniad y byddai Cyfarfodydd Eiriolwyr, mewn achosion gofal, a oedd yn cael eu cynnal drwy fideo-gynadledda'n cael eu talu fel petaent yn gyfarfodydd wyneb yn wyneb. Trwy dalu am y cyfarfodydd hyn drwy fideo-gynadledda fel petaent yn gyfarfodydd wyneb yn wyneb, mae'r newidiadau hyn yn helpu'r ACG i gyflawni'i nodau o leihau oedi a sicrhau gwell canlyniadau i blant a theuluoedd.

Strwythur y CFfTG

3.12 Cynllun talu graddedig cymhleth yw'r CFfTG sy'n wahanol iawn i'r cynlluniau ffioedd teulu safonol newydd a gyflwynwyd ar gyfer twrneiod o Hydref 2007. Y prif wahaniaeth yw nifer, cymhlethdod ac amrywiaeth yr 'ychwanegiadau' a'r 'taliadau ategol' y gellir eu talu dan y cynllun.

3.13 Mae'r cynllun yn berthnasol i fargyfreithwyr mewn practis annibynnol sy'n gwneud gwaith teulu dan dystysgrifau ariannu a roddwyd ar 1 Mai 2001 neu wedi hynny. Nid yw'r CFfTG yn berthnasol:

a) i apeliadau a gynhelir naill ai yn y Llys Adrannol ar apêl o'r Llys Achosion Teulu;

b) i achosion lle mae'r prif wrandawiad yn hwy na 10 diwrnod; neu

c) lle mae'r achos yn destun contract achos costau uchel gan Uned Achosion Arbennig y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol.

3.14 Mae'r CFfTG yn delio gyda 4 categori gwaith:

Categori 1 – Gwaharddebau teulu	Categori 3 - Cyfraith breifat plant
Categori 2 - Cyfraith gyhoeddus plant	Categori 4 - Llareiddiad ategol a'r holl waith teulu arall

3.15 Mae'r ffioedd safonol a'r ychwanegiadau amrywiol yn daladwy ymhob un categori ond mae union swm y ffi neu'r ychwanegiad yn amrywio o gategori i gategori. Pan fydd yr achos sy'n mynd rhagddo'n dod o dan fwy nag un categori, rhaid i'r cwnsler ddewis o dan ba gategori y mae am gael ei dalu am yr holl waith a wnaed wrth wneud hawliad am daliad. Fel arfer, byddai disgwyl i'r cwnsler ddewis y categori sy'n talu'r gyfradd uchaf.

3.16 Mae ffioedd safonol yn daladwy am wahanol fathau o weithgarwch. Mae'r rhain yn amrywio o ffi sylfaenol un-tro statig (a delir unwaith am bob swyddogaeth a hawlir amdani), neu ffioedd uned gwrandawiad (a delir unwaith am bob uned gwrandawiad ar gyfer pob swyddogaeth a hawlir amdani). Y gweithgareddau hyn yw:

- Gwaith cyn-achos (swyddogaeth F1): gwaith a wneir cyn cychwyn achos (nid yw'n cynnwys gwaith a wneir mewn cysylltiad â chynhadledd). Y ffi sylfaenol sy'n daladwy.
- Gwrandawiadau Gorfodi neu Lareiddiad Gwaharddol (swyddogaeth F2): gwaith a wneir mewn cysylltiad â gweithdrefnau gorfodi neu lareiddiad gwaharddol, ac eithrio gwrandawiad traddodi. Ffi uned gwrandawiad sy'n daladwy.
- Gwrandawiad (swyddogaeth F3): pob gwaith a wneir mewn cysylltiad â gwrandawiad, gan gynnwys gwrandawiad traddodi. Ffi uned gwrandawiad sy'n daladwy.
- Cynadleddau (swyddogaeth F4): pob gwaith a wneir mewn cysylltiad â chynhadledd, gan gynnwys cynhadledd dros y ffôn neu fideo. Y ffi sylfaenol sy'n daladwy.
- Prif Wrandawiad (swyddogaeth F5): pob gwaith a wneir mewn cysylltiad â'r prif wrandawiad. Ffi uned gwrandawiad sy'n daladwy.

3.17 Mae gwahanol fathau o ychwanegiadau a thaliadau ategol yn daladwy ar ben y ffioedd safonol. Nodir y prif rai isod.

Ychwanegiad: Taliadau Materion Arbennig (*SIPs*)

3.18 Taliadau Materion Arbennig yw'r ychwanegiadau mwyaf cymhleth. Ar gyfer pob Mater Arbennig sy'n berthnasol, mae'r ffi sylfaenol neu'r ffi uned gwrandawiad yn cael ei lluosi gyda chanran. Ar gyfer pob categori gwaith, mae pob Taliad Materion Arbennig yn cynnig cynnydd canrannol penodol. Mae'r codiadau canrannol hyn yn cael eu hadio at ei gilydd ar gyfer pob Taliad Materion Arbennig awdurdodedig, ac wedyn mae'r ffi sylfaenol neu'r ffi uned gwrandawiad yn cael ei lluosi'n briodol. Er enghraifft, byddai eiriolwr (heb fod yn CF; mae cyfraddau gwahanol ar gyfer Cwnsleriaid y Frenhines) sy'n hawlio Taliad Materion Arbennig "Ymddygiad" mewn achos cyfraith breifat (categori 3) yn derbyn cynnydd o 50% mewn unrhyw ffioedd a hawlir y mae'r Taliad Materion Arbennig hwnnw'n berthnasol iddo. Byddai'r un eiriolwr sy'n hawlio'r un Taliad Materion Arbennig mewn achos cyfraith gyhoeddus (categori 2) yn derbyn cynnydd o 20% mewn unrhyw ffioedd a hawlir y mae'r Taliad Materion Arbennig hwnnw'n berthnasol iddo.

3.19 Gall mater arbennig godi lle mae'r achos yn cynnwys (neu, yng nghyswllt rhai Taliadau Materion Arbennig, lle yr honnir bod yr achos yn cynnwys):

- ymgyfreithiwr drosto'i hun;
- mwy na dau barti;
- y cwnsler yn cynrychioli mwy nag un plentyn;

- cynrychioli unigolyn sy'n cael trafferth rhoi cyfarwyddyd neu ddeall cyngor oherwydd anhwylder meddyliol neu oherwydd nam sylweddol ar ei ddeallusrwydd neu weithredu cymdeithasol;
- cynrychioli rhiant neu rieni plentyn sy'n destun yr achos;
- cynrychioli unigolyn arall (gan gynnwys plentyn) y gwneir honiadau yn ei erbyn iddo achosi neu yr honnir ei fod yn debygol o achosi niwed difrifol i blentyn;
- dadansoddi cyfrifon busnes unigolyn, partneriaeth neu gwmni;
- o ran achos am lareiddiad ategol (categori 4), un neu fwy o arbenigwyr;
- mewn achosion teulu - gwaharddebau, achosion cyfraith gyhoeddus yn ymwneud â phlant ac achosion cyfraith breifat yn ymwneud â phlant (categori 1, 2 a 3), mwy nag un arbenigwr;
- elfen dramor berthnasol;
- asedau perthnasol nad ydynt o dan reolaeth lwyr unrhyw un o'r partïon neu nad ydynt o bosibl o dan reolaeth lwyr unrhyw barti;
- parti sydd wedi bod neu sydd o bosib wedi bod yn gysylltiedig ag ymddygiad drwy'r hwn y mae plentyn sy'n destun yr achos wedi, neu o bosibl wedi dioddef niwed difrifol iawn neu drwy'r hwn y gall y plentyn ddioddef niwed difrifol iawn; neu
- parti sydd wedi bod neu sydd o bosibl wedi bod yn gysylltiedig ag ymddygiad bwriadol sydd wedi neu a allai fod wedi lleihau neu a all leihau'n sylweddol yr asedau sydd ar gael i'r llys i'w dosbarthu.

3.20 Ardystir y Taliadau Materion Arbennig hyn ar ffurflen gan y barnwr sy'n gwrando'r achos ar ddiwedd y gwrandawiad perthnasol. Tra bod rhai Taliadau Materion Arbennig yn amlwg yn wrthrychol, mae eraill (er enghraifft, y rhai sy'n gysylltiedig ag ymddygiad parti) yn fwy goddrychol. Rhaid i unrhyw hawliad yn gofyn am Daliadau Materion Arbennig gael ei gefnogi gan gopi o'r ardystiad.

Taliad ategol: Datrys Anghydfod Ariannol

3.21 Mewn achos llareiddiad ategol, rhoddir taliadau penodol ychwanegol ar gyfer gwrandawiadau Datrys Anghydfod Ariannol, Chwnsleriaid y Frenhines yn cael taliadau uwch.

Taliad ategol: Taliadau Bwndeli Llys

3.22 Telir taliad bwndel llys lle mae bwndel y llys yn cynnwys rhwng 176 a 350 tudalen; a rhoddir taliad mwy lle mae bwndel y llys yn fwy na 350 tudalen. Os nad oes bwndel llys, mae darpariaethau cyfwerth yn berthnasol i friff y cwnsler.

Ychwanegiad: Atodiadau Setlo

3.23 Telir atodiad setlo, fel canran o'r ffi sylfaenol neu'r ffi uned gwrandawiad sy'n berthnasol i'r swyddogaeth lle digwydd y setliad, lle ceir setliad sy'n arwain at ddatrys y set o achosion.

Taliad ategol: Taliadau Achlysurol

3.24 Telir taliad am eitemau achlysurol lle mae eiriolwr wedi wynebu costau rhesymol am: weld neu wrando ar dystiolaeth a gofnodwyd ar dâp, ddisg neu fideo; amser a dreuliwyd yn teithio; costau teithio; costau aros mewn gwesty dros nos.

Taliad ategol: Ffi Paratoadau Arbennig

3.25 Telir Ffi Paratoadau Arbennig lle mae'r achos yn cynnwys materion cyfreithiol neu ffeithiol eithriadol o gymhleth, neu lle roedd yr achos yn un eithriadol o'i fath.

3.26 Mae Ffioedd Paratoadau Arbennig yn daladwy hefyd mewn achos cyfraith gyhoeddus sy'n gysylltiedig â phlant, mewn perthynas â gwaith a wneir o fewn uned gwrandawiad eilaidd swyddogaeth F5, lle rhennir y prif wrandawiad fel bo cyfnod o bedwar mis o leiaf rhwng cychwyn y gwrandawiad ac ailddechrau'r gwrandawiad, fel y bu gofyn i'r cwnsler wneud llawer mwy o waith paratoi nag a fyddai'n cael ei wneud fel arfer ar gyfer achos o'r un math.

3.27 Mae Ffi Paratoadau Arbennig yn daladwy hefyd os yw bwndel y llys yn fwy na 700 tudalen.

3.28 Cyfrifir maint y ffi paratoadau arbennig drwy luosi nifer yr oriau paratoi ychwanegol i'r oriau paratoi arferol ar gyfer achos o'r un math gyda chyfradd fesul awr.

Taliad ategol: Gorfodaeth a Llareiddiad Gwaharddol a Wrthwynebir

3.29 Ar gyfer achosion llareiddiad ategol a phob achos teulu arall (categori 4), os ceir gwrandawiad llareiddiad gwaharddol sy'n cael ei wrthwynebu, neu weithdrefnau gorfodi (dan F2), mae £100 arall yn daladwy, gyda thaliad mwy ar gyfer Cwnsleriaid y Frenines.

Ychwanegiad: Uchel Lys

3.30 Cynyddir y ffi gyfan 33% yng nghyswllt gwaith a wneir pan fo'r achos yn yr Uchel Lys.

Achosion Gofal Plant

3.31 Cyflwynir cymhlethdodau ychwanegol ar gyfer achosion prin. Yn yr achosion hyn, telir am gyfarfodydd eiriolwyr fel petaent yn wrandawiadau, ac nid yn gynadleddau. Hefyd, gellir talu am Adolygiad Cyn-gwrandawiad neu Wrandawiad Datrys Materion (gwrandawiad F3 fel arfer) fel petaent yn brif wrandawiad lle mae'r un cwnsler yn mynychu'r gwrandawiad hwnnw a'r prif wrandawiad.

Cefndir y Cynigion Presennol ar gyfer y CFfTG

Cysoni'r Cyfraddau

4.1 Wrth wneud unrhyw Orchymyn Talu, mae adran 25 Deddf Mynediad i Gyfiawnder 1999 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Arglwydd Ganghellor ystyried:

a) yr angen i sicrhau y darperir y gwasanaethau y mae'r Gorchymyn yn berthnasol iddynt gan nifer digonol o gyrff ac unigolion cymwys,

b) y gost i gronfeydd arian cyhoeddus, ac

c) yr angen i sicrhau gwerth am arian.

4.2 Mae'r Llywodraeth yn ceisio sicrhau gwerth am arian yn y gwasanaethau cyfreithiol y mae'n eu prynu drwy symud i system lle telir yr un ffi am yr un gwasanaeth i'r cleient, ni waeth pa fath o eiriolwr sy'n ei ddarparu. Ar hyn o bryd, ceir gwahaniaeth sylweddol rhwng y cyfraddau a delir am waith eiriolaeth i dwrneiod a'r rhai a delir i fargyfreithwyr dan y CFfTG.

4.3 Er ei bod yn anodd cymharu'r ddau drefniant talu yn uniongyrchol gan eu bod yn wahanol iawn, mae dadansoddiad o waith eiriolaeth gan dwrneiod mewn achosion cyfraith gyhoeddus yn ymwneud â phlant[3] yn dangos y gall bargyfreithwyr gael eu talu rhwng 50% a 75% yn fwy am waith eiriolaeth dan y CFfTG nag a delir i dwrneiod am waith eiriolaeth ar eu cyfraddau fesul awr.

4.4 Fel y nodir uchod, yn ddiweddarach eleni bydd y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol yn ymgynghori ar gynigion ar gyfer cynllun eiriolaeth cyfun ar gyfer twrneiod a bargyfreithwyr i ddod i rym o 2010 ymlaen. Mae'r cysoni hwn yn angenrheidiol er mwyn inni allu sicrhau bod y gwasanaethau eiriolaeth teulu a brynwn yn darparu gwerth am arian, yn sicrhau nifer digonol o eiriolwyr cymwys, ac yn cael eu darparu o fewn y gyllideb.

4.5 Mae'r cynigion yn debygol o gynnwys opsiynau lle cynyddir y taliadau a wneir ar hyn o bryd i dwrneiod sy'n gwneud gwaith eiriolaeth teulu, a bod y ffioedd a delir ar hyn o bryd i fargyfreithwyr yn cael eu gostwng. Yn ogystal â chynnig yr un ffi am yr un gwasanaeth i'r cleient, mantais arall y cysoni hwn yw bod y system daliadau yn fwy agored, sy'n bwysig os symudwn at broses Tendro Gwerth Gorau o 2013 ymlaen, fel sydd wedi'i gynnig.

[3] Roedd y dadansoddiad hwn yn rhagdybio proffil hawlio tebyg (yn cynnwys Taliadau Materion Arbennig a Thaliadau Bwndeli Llys) gan dwrneiod fel ar gyfer bargyfreithwyr petai twrneiod yn hawlio dan y CFfTG ar gyfer gwaith eiriolaeth. Gan yr hawlir Taliadau Materion Arbennig 'ymddygiad' a 'sawl parti' ymhob achos bron, roedd y cyfrifo'n rhagdybio y byddai twrneiod yn hawlio'r rhain hefyd dan y CFfTG. Rhagdybiwyd yr un patrwm hawlio Taliadau Achlysurol a Ffioedd Paratoadau Arbennig y CFfTG ar gyfer twrneiod ag ar gyfer bargyfreithwyr.

4.6 Oherwydd ein bwriad i symud tuag at gysoni taliadau eiriolaeth i dwrneiod a bargyfreithwyr, mae'r opsiynau ymgynghori isod yn nodi ffyrdd o leihau'r cyfraddau uwch a delir ar hyn o bryd i fargyfreithwyr dan y CFfTG er mwyn paratoi'r ffordd ar gyfer rhagor o gysoni, os dyna fydd y canlyniad yn dilyn yr ymgynghoriad a fydd yn dechrau yn ystod yr hydref eleni.

Byw o fewn y Gyllideb

4.7 Mae oddeutu chwarter y gyllideb cymorth cyfreithiol o £2bn yn cael ei wario ar achosion teulu. Er enghraifft, yn 2006-2007, gwariwyd £535m (arian) ar achosion teulu (achosion ardystiedig a help cyfreithiol). Talwyd oddeutu 18% o'r gwariant teulu i fargyfreithwyr drwy'r Cynllun Ffioedd Teulu Graddedig. Mae dros 3000 o fargyfreithwyr yn gwneud gwaith teulu a ariennir drwy gymorth cyfreithiol.

4.8 Mae'r gwariant dan y CFfTG wedi parhau i gynyddu'n sylweddol. Nodir y ffigurau yn yr **Asesiad Effaith** (tudalen 30) ac fe'u hailddangosir isod er hwylustod. Dengys **Tabl 1** gyfanswm y gwariant yn fras dan y CFfTG yn ystod y pum mlynedd diwethaf.

Tabl 1 – CFfTG – Biliau a Dalwyd (arian)[4]

Blwyddyn	Cyfraith Breifat[5]	Cyfraith Gyhoeddus[6]	Cyfanswm y Gwariant	Y newid o un flwyddyn i'r llall
2003-04	£38.3m	£35.9m	**£74.2m**	
2004-05	£41m	£42.6m	**£83.6m**	+12.7%
2005-06	£45.4m	£45.2m	**£90.6m**	+8.5%
2006-07	£47.3m	£46.8m	**£94.1m**	+3.7%
2007-08	£50.8m	£47.4m	**£98.2m**	+4.4%

4.9 Mae Tabl 1 yn cynrychioli'r biliau a dalwyd o un flwyddyn i'r llall. Mae'n rhoi'r amcan gorau o faint a delir dan y cynllun ymhob blwyddyn ariannol. Dangosir bod cyfanswm y gwariant wedi codi'n sylweddol. Nid ydym wedi newid y ffigurau am y biliau a dalwyd i gyfartaleddau fesul achos oherwydd bod cyfran achos sy'n cael ei filio mewn blwyddyn yn amrywio oherwydd nifer o ffactorau ac felly nid yw tueddiadau biliau a dalwyd ar lefel achos unigol yn bwysig o anghenraid. Mae tabl 1 yn cael ei ddangos ar ffurf weledol yn **Ffigur 1** isod:

---

[4] Mae'r ffigurau gwariant yn amrywio ychydig gan y'u diweddarir gyda'r wybodaeth ddiweddaraf yn rheolaidd gan y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol. Mae'r ffigurau hyn yn seiliedig ar wybodaeth gyfredol. Defnyddir y ffigurau diweddaraf i benderfynu ar y ffordd ymlaen ar ôl yr ymgynghoriad.

[5] Mae Cyfraith Breifat yn cynnwys gwaith categori 1 (gwaharddebau - teulu), 3 (cyfraith breifat – plant) a 4 (llareiddiad ategol) y CFfTG.

[6] Mae Cyfraith Gyhoeddus yn cynnwys gwaith categori 2 (cyfraith gyhoeddus - plant) y CFfTG.



4.10 Er mwyn edrych ar y tueddiadau yng nghostau achos ar gyfartaledd, arweiniad mwy dibynadwy yw'r cyfanswm a dalwyd ar ddiwedd achos sydd wedi cau. Mae **Tabl 2** yn nodi cyfanswm y gwariant ar achosion caeedig a'r tueddiadau yng nghostau achos ar gyfartaledd dros y pedair blynedd diwethaf y mae gennym ffigurau ar eu cyfer (nid yw ffigurau sydd wedi'u cadarnhau ar gyfer 2007-08 ar gael eto).

Tabl 2 – CFfTG – Costau Achosion Caeedig[7]

Cyfraith Gyhoeddus			
blwyddyn cau	*Nifer yr achosion yn defnyddio cwnsler*	*Ffi Teulu Graddedig ar gyfartaledd fesul achos*	*Cyfanswm gwariant y CFfTG*
2003-04	10,391	£1,576	**£16.4m**
2004-05	11,003	£2,307	**£25.4m**
2005-06	12,208	£2,803	**£34.2m**
2006-07	12,857	£2,837	**£36.5m**
Cyfraith Breifat			
blwyddyn cau	*Nifer yr achosion yn defnyddio cwnsler*	*Ffi Teulu Graddedig ar gyfartaledd fesul achos*	*Cyfanswm gwariant y CFfTG*
2003-04	42,853	£458	**£19.6m**
2004-05	40,046	£641	**£25.7m**
2005-06	40,785	£801	**£32.7m**
2006-07	40,336	£890	**£35.9m**

[7] Mae'r ffigurau gwariant yn amrywio ychydig gan y'u diweddarir gyda'r wybodaeth ddiweddaraf yn rheolaidd gan y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol. Mae'r ffigurau hyn yn seiliedig ar wybodaeth gyfredol. Defnyddir y ffigurau diweddaraf i benderfynu ar y ffordd ymlaen ar ôl yr ymgynghoriad.

Cyffredinol		
blwyddyn	*Cyfanswm gwariant y CFfTG*	*Y newid o un flwyddyn i'r llall*
2003-04	**£36m**	
2004-05	**£51m**	+42%
2005-06	**£66.9m**	+31%
2006-07	**£72.4m**	+8%

4.11 Dengys tabl 2 fod cyfanswm y gwariant ar gyfer Cyfraith Gyhoeddus a Phreifat wedi cynyddu'n sylweddol yn ystod y pedair blynedd diwethaf, gan ddyblu dros y cyfnod hwnnw. Cynyddodd y gwariant er gwaethaf gostyngiad yn nifer y tystysgrifau cyfraith breifat a roddwyd, ac, yng nghyswllt cyfraith gyhoeddus a phreifat, cynyddodd y gwariant yn fwy na'r cynnydd yn y niferoedd. Mae costau achos ar gyfartaledd ym maes Cyfraith Gyhoeddus a Phreifat wedi codi'n sylweddol hefyd, gan ddyblu bron mewn pedair blynedd. Mae hyn cael ei ddangos ar ffurf weledol yn **Ffigur 2**:



4.12 Nod cynllun eiriolaeth teulu newydd yn Ebrill 2008 fuasai cynnal y gwariant cyfredol ar eiriolaeth teulu gan dwrneiod a bargyfreithwyr. Byddai hyn wedi golygu y byddai cyfanswm y gwariant wedi aros yn gyson, yn seiliedig ar yr un maint o waith. Petai'r niferoedd yn cynyddu, byddai mwy'n cael ei wario. Ond, byddai'r cynllun i bob pwrpas wedi capio costau ac wedi atal rhagor o godiadau o un-flwyddyn-i'r-llall yn y costau cyfartalog, a thrwy hynny gael gwared ag elfen chwyddiant codiadau mewn gwariant.

4.13 Roedd amcanestyniadau cyllidebol yr Adran wedi ystyried y capio hwn ar wariant, ac roedd gostyngiad yn y gwariant o ryw **£13m** yn cael ei ragweld dros y ddwy flynedd nesaf, fel y nodir yn **Nhabl 3**.

Tabl 3 – Gostyngiadau a Ragwelir mewn Gwariant dan Gynllun Eiriolaeth Teulu Ebrill 2008 (RAB)[8]

2009-10	£1m
2010-11	£12m

4.14 Mae cymorth cyfreithiol yn gweithredu o fewn cyllideb benodol. Gan fod y trefniadau eiriolaeth teulu newydd wedi'u gohirio tan 2010, rhaid i'r Adran weithredu i aros o fewn y gyllideb. Felly, mae'r cynigion isod ar gyfer ymgynghori arnynt yn nodi opsiynau gwahanol ar gyfer lleihau gwariant y CFfTG er mwyn gallu gweithredu o fewn y gyllideb, gan sicrhau hefyd y darperir gwasanaethau gan niferoedd digonol o eiriolwyr cymwys.

4.15 Bydd y Weinyddiaeth Gyfiawnder a'r Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol hefyd yn parhau i ystyried a oes angen unrhyw fesurau i gyfyngu ar y galw am fathau penodol o gymorth cyfreithiol sifil, yn arbennig ar gyfer rhan olaf y cyfnod a gwmpesir gan y Cynlluniau Gwariant presennol. Os bydd angen cyflwyno rhai mesurau, byddant yn seiliedig ar asesiad o flaenoriaethau cymharol ac fe ymgynghorir arnynt. Yn naturiol, os na weithredwn i leihau'r gwariant ar y CFfTG a byw o fewn y gyllideb, byddai angen i unrhyw gyfyngiadau a argymhellir i'r galw gan gleientiaid fod yn fwy sylweddol.

[8] Mae'r ffigurau gwariant yn amrywio ychydig gan y'u diweddarir gyda'r wybodaeth ddiweddaraf yn rheolaidd gan y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol. Mae'r ffigurau hyn yn seiliedig ar wybodaeth gyfredol. Defnyddir y ffigurau diweddaraf i benderfynu ar y ffordd ymlaen ar ôl yr ymgynghoriad.

Cynigion yr Ymgynghoriad

5.1 Isod ceir sawl opsiwn a'u bwriad yw (a) symud tuag at gysoni'r cyfraddau a delir i dwrneiod a bargyfreithwyr am waith eiriolaeth teulu, a (b) lleihau gwariant y CFfTG i sicrhau bod yr Adran yn gweithredu o fewn ei chyllideb, gan ystyried ar yr un pryd y ffactorau a nodir yn adran 25 Deddf Mynediad i Gyfiawnder 1999.

Opsiwn A – Gostyngiadau ar Draws y Bwrdd yng Nghyfraddau'r Ffioedd Teulu Graddedig a'r 'Taliadau Ategol'

5.2 Gyda'r opsiwn hwn, byddai'r holl ffioedd sylfaenol a ffioedd uned gwrandawiad yn cael eu gostwng gan ganran benodedig. Ni fyddai'r gostyngiad hwn yn berthnasol i Daliadau Materion Arbennig, Atodiadau Setlo na'r ychwanegiad ar gyfer yr Uchel Lys (gan fod y rhain yn gweithredu fel lluosyddion, byddai unrhyw ostyngiad yn y ffioedd sylfaenol ac uned gwrandawiad yn effeithio hefyd ar y lluosyddion hyn yn anuniongyrchol), ond mi fyddai'n berthnasol i bob taliad ategol arall h.y. Taliadau Bwndeli Llys, Taliadau Datrys Anghydfod Ariannol, Taliadau Achlysurol a Ffioedd Paratoadau Arbennig.

5.3 Byddai'r opsiwn hwn yn helpu i gysoni taliadau eiriolaeth teulu twrneiod a bargyfreithwyr. Byddai hefyd yn helpu'r Adran i weithredu o fewn ei chyllideb. Er enghraifft (yn seiliedig ar £98m yn 07-08 ar gyfer biliau a dalwyd), byddai gostyngiad **7%** mewn gwariant, ar gyfer pob gwaith newydd a ddechreuir, yn lleihau'r gwariant oddeutu **£7m** (*RAB*) y flwyddyn. Gallai hyn sicrhau gostyngiadau o ryw **£14m** dros 2009-10 a 2010-11.

5.4 Hefyd, mae'r opsiwn hwn yn deg, o ran ei fod yn berthnasol i bob categori gwaith fel ei gilydd, ac i bob eiriolwr fel ei gilydd beth bynnag yw eu patrwm hawlio. Byddai gostyngiad ar draws y bwrdd yn lleihau gwariant y CFfTG a thrwy hynny helpu i gysoni taliadau eiriolaeth teulu twrneiod a bargyfreithwyr. Byddai'r opsiwn hwn yn syml i'w ddeall, ei gymhwyso a'i weinyddu.

C1: Ai opsiwn A sydd orau gennych (gostyngiadau ar draws y bwrdd) o'i gymharu â'r opsiynau eraill? Pa fanteision a gynigir ganddo?

C2: A oes rhesymau dros beidio â derbyn opsiwn A? Beth ydynt?

C3: A oes modd lliniaru unrhyw rai o anfanteision opsiwn A?

C4: Ar ba lefel y dylid gosod gostyngiad o'r fath? Pam?

Opsiwn B – Dileu neu leihau'r Taliadau Materion Arbennig

5.5 Gyda'r opsiwn hwn byddai'r Taliadau Materion Arbennig yn cael eu dileu neu eu lleihau. Mae'r Taliadau Materion Arbennig yn cael eu hawlio'n eithaf rheolaidd. Er enghraifft, yn 2006-07 hawliwyd Taliadau Materion Arbennig mewn 62% o hawliadau'r CFfTG (mewn achosion caeedig). Lle cawsant eu hawlio, roedd cyfartaledd o 7.37 Taliad Materion Arbennig wedi'u hawlio

(mae llawer ohonynt yn cael eu hawlio fwy nag unwaith; ar gyfartaledd hawlir 2.4 Taliad Materion Arbennig gwahanol). Yn 2007-08, arhosodd cyfran y Taliadau Materion Arbennig a hawliwyd yn statig ar 62%.

5.6 Byddai dileu neu leihau'r Taliadau Materion Arbennig yn dal i olygu y gallai eiriolwyr barhau i hawlio ffioedd sylfaenol a ffioedd uned gwrandawiad a mathau eraill o ychwanegiadau (e.e. Atodiadau Setlo) neu daliadau ategol (e.e. taliadau bwndel llys).

5.7 Mae rhanddeiliaid gan gynnwys y proffesiynau a'r farnwriaeth wedi nodi bod y cynllun talu presennol yn rhy gymhleth, ac y dylid ailystyried rôl Taliadau Materion Arbennig. Felly, mae'n debygol y bydd cynigion ar gyfer y cynllun eiriolaeth teulu newydd ar gyfer Ebrill 2010 yn cynnwys symleiddio'r drefn yn sylweddol. Byddai dileu'r Taliadau Materion Arbennig yn gosod y sylfaen ar gyfer y symleiddio hwn (ond gweler isod).

5.8 Byddai dileu'r Taliadau Materion Arbennig yn lleihau gwariant y CFfTG a thrwy hynny helpu i gysoni taliadau eiriolaeth teulu twrneiod a bargyfreithwyr. Er enghraifft, mae cyfanswm y gwariant ar Daliadau Materion Arbennig i'w weld yn **Nhabl 4** isod:

Tabl 4 – CFfTG – Taliadau Materion Arbennig - Biliau a Dalwyd (arian)

Blwyddyn	Cyfraith Breifat	Cyfraith Gyhoeddus	Cyfanswm y Gwariant
2003-04	£4.7m	£10.1m	**£14.8m**
2004-05	£5.9m	£11.7m	**£17.6m**
2005-06	£7.6m	£13m	**£20.6m**
2006-07	£9.5m	£14.6m	**£24.1m**
2007-08	£11.7m	£15.3m	**£27m**

5.9 Ac eto ar ffurf weledol yn **Ffigur 3**:



5.10 Gallai hefyd wneud y CFfTG yn llawer symlach, gan gael gwared â'r angen i gyfrifo effaith y Taliadau Materion Arbennig perthnasol ar y ffi. Gallai hefyd olygu na fyddai angen i farnwyr ardystio'r Taliadau Materion Arbennig a hawlir gan eiriolwyr, gan helpu o bosibl i leihau unrhyw faich gweinyddol ar y farnwriaeth. Lle prosesir biliau gan y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol, byddai'r broses asesu'n cael ei symleiddio, gan arwain at arbedion gweinyddol bychan o bosibl.

5.11 Un mater i'w ystyried gyda'r opsiwn hwn yw bod Taliadau Materion Arbennig yn cyfrannu symiau gwahanol at wariant mewn categorïau gwaith gwahanol. Er enghraifft, mae Taliadau Materion Arbennig yn ffurfio 29.4% o'r gwariant mewn achosion Deddf Plant Arbennig (categori 2), ond dim ond 20.6% o'r gwariant mewn achosion darpariaethau ariannol (categori 4). Gallai dileu'r holl Daliadau Materion Arbennig leihau'r taliadau ar gyfer rhai categorïau gwaith yn fwy nag eraill.

5.12 Un ateb posibl yn hyn o beth fyddai (petaem yn dileu'r Taliadau Materion Arbennig a sicrhau'r buddion a ddisgrifir uchod) ailgylchu rhywfaint o'r arian a dalwyd yn flaenorol mewn Taliadau Materion Arbennig ar gyfer cynyddu'r ffioedd sylfaenol. Gellid targedu'r arian hwn er mwyn cael gwared ag unrhyw anghysonderau a achosir gan Daliadau Materion Arbennig a delir ar gyfraddau gwahanol ar gyfer gwahanol gategorïau gwaith. Er enghraifft, ar sail ffigurau 07-08, petai'r Taliadau Materion Arbennig yn cael eu dileu ar gyfer pob gwaith newydd a gychwynnir, a bod 75% o'r hyn a werir ar Daliadau Materion Arbennig yn cael ei ailgylchu ar gyfer ffioedd sylfaenol, gellid lleihau gwariant **£6.75m** (RAB) y flwyddyn. Gallai hyn sicrhau gostyngiadau o **£13.5m** dros 2009-10 a 2010-11.

C5: Ai opsiwn B sydd orau gennych (dileu neu leihau'r Taliadau Materion Arbennig) o'i gymharu â'r opsiynau eraill? Pa fanteision a gynigir ganddo?

C6: A oes rhesymau dros beidio â dewis opsiwn B? Beth ydynt?

C7: A oes modd lliniaru unrhyw rai o anfanteision opsiwn B?

C8: I ba raddau y dylid lleihau neu ddileu'r Taliadau Materion Arbennig?

Opsiwn C – Dileu neu leihau'r Ffioedd Paratoadau Arbennig a Thaliadau Bwndeli Llys

5.13 Gyda'r opsiwn hwn byddai'r Ffioedd Paratoadau Arbennig (gweler paragraff 3.25 uchod) a Thaliadau Bwndeli Llys (gweler paragraff 3.22) a delir ar hyn o bryd i eiriolwyr yn cael eu lleihau neu eu dileu.

5.14 Telir Ffioedd Paratoadau Arbennig ar gyfraddau penodol fesul awr tra bod Taliadau Bwndeli Llys yn symiau penodol - yn dibynnu ar faint y bwndel a'r math o wrandawiad. Ni fyddai'r gwariant a fyddai'n cael ei arbed gyda'r gostyngiad hwn yn cael ei ailgylchu'n ôl i'r ffioedd sylfaenol neu ychwanegiadau eraill.

Ffioedd Paratoadau Arbennig

5.15 Mae Ffioedd Paratoadau Arbennig yn cael eu hawlio'n eithaf rheolaidd. Yn 2006-07 cawsant eu hawlio mewn 29% o achosion caeedig. Yn 2007-08 cawsant eu hawlio mewn 28% o achosion caeedig. Mae dadansoddiad a

gynhaliwyd gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi dangos bod y gwariant ar Ffioedd Paratoadau Arbennig wyth gwaith yn uwch na'r hyn a fwriadwyd yn 2005. Er enghraifft, yn 2007-08 tybiwyd y byddai'r gwariant ar Ffioedd Paratoadau Arbennig ryw £700k, ond y gwir ffigur oedd £5.5m – arweiniodd y gorwariant hwn at gynyddu gwariant y CFfTG **£4.8m**.

Tabl 5 – CFfTG – Gwariant ar Ffioedd Paratoadau Arbennig mewn achosion caeedig

Blwyddyn	Ffioedd Paratoadau Arbennig
2003-04	£4.6m
2004-05	£6.6m
2005-06	£6.4m
2006-07	£6m
2007-08	£5.5m

Taliadau Bwndeli Llys

5.16 Mae Taliadau Bwndeli Llys yn cael eu hawlio'n rheolaidd. Yn 2006-07 cawsant eu hawlio mewn 45% o achosion caeedig. Yn 2007-08 cawsant eu hawlio mewn 46% o achosion caeedig.
Yn y ddwy flynedd ar gyfartaledd cafodd 1.9 Taliad Bwndeli Llys eu hawlio. Mae'r Taliadau Bwndeli Llys yn cyfrannu cryn dipyn yn fwy i wariant y CFfTG nag a ragwelwyd. Mae'r Taliadau Bwndeli Llys dros ddwywaith yn fwy na'r hyn a fwriadwyd yn 2005. Er enghraifft, yn 2007-08 tybiwyd y byddai'r gwariant ar Daliadau Bwndeli Llys ryw £3.8m, ond y gwir ffigur oedd £8.6m – arweiniodd y gorwariant hwn at gynyddu gwariant y CFfTG **£4.8m**.

Tabl 6 – CFfTG – Gwariant ar Daliadau Bwndeli Llys mewn achosion caeedig

Blwyddyn	Taliadau Bwndeli Llys 1 a 2
2003-04	£5.1m
2004-05	£6.9m
2005-06	£8.1m
2006-07	£8.3m
2007-08	£8.6m

5.17 Mae tabl 7 yn crynhoi cyfanswm y gwariant dros y pum mlynedd diwethaf ar Ffioedd Paratoadau Arbennig a Thaliadau Bwndeli Llys.

Tabl 7 – CFfTG – Cyfanswm y gwariant ar Ffioedd Paratoadau Arbennig a Thaliadau Bwndeli Llys mewn achosion caeedig

Blwyddyn	Taliadau Bwndeli Llys 1 a 2
2003-04	£9.7m
2004-05	£13.5m
2005-06	£14.5m
2006-07	£14.3m
2007-08	£14.1m

5.18 Mae **Tabl 8** isod yn dangos sut y dosberthir y gwariant cyfredol ar Daliadau Bwndeli Llys a Ffioedd Paratoadau Arbennig rhwng 4 categori'r CFfTG.

Tabl 8 - Dadansoddiad yn ôl categorïau'r CFfTG o'r Gwariant ar Daliadau Bwndeli Llys a Ffioedd Paratoadau Arbennig mewn Achosion Caeedig (2007-08)

	Cyfraith Gyhoeddus	Cyfraith Breifat	Llareiddiad Ategol	Gwaharddebau
Ffioedd Paratoadau Arbennig	£3.4m	£1.3m	£0.5m	£0.3m
Taliadau Bwndeli Llys	£5.3m	£1.9m	£0.9m	£0.5m

5.19 O wybod am y cynnydd sylweddol yn y gwariant ar Daliadau Bwndeli Llys a Ffioedd Paratoadau Arbennig a'n hangen ni i ddarparu gwasanaethau o fewn ein cyllideb benodol, mae'r opsiwn hwn yn cynnig dileu neu leihau'r taliadau hyn yn y CFfTG.

5.20 Fel y gellir ei weld o dabl 8, mae'r Taliadau Bwndeli Llys a'r Ffioedd Paratoadau Arbennig yn cyfrannu symiau gwahanol at gategorïau gwaith gwahanol. Byddai dileu'r Taliadau Bwndeli Llys a'r Ffioedd Paratoadau Arbennig yn golygu gostyngiad mwy sylweddol yn y gwariant mewn rhai categorïau nag eraill. Ond ar hyn o bryd mae'r ddau daliad ategol yn cyfrannu cryn dipyn yn fwy at wariant yn yr holl gategorïau nag a gynlluniwyd ar ei gyfer.

5.21 Un opsiwn yw lleihau'r Taliadau Bwndeli Llys a'r Ffioedd Paratoadau Arbennig o ganran. Byddai'r cyfryw ostyngiad yn berthnasol i bob categori gwaith fel ei gilydd a byddai'n cadw'r gwariant gwahaniaethol yn y categorïau gwaith gwahanol (ond ar gyfradd is). Er enghraifft, petaent yn cael eu lleihau 50% ar gyfer pob gwaith newydd a gychwynnir, byddai hyn yn gostwng gwariant y CFfTG oddeutu **£7m** (*RAB*) y flwyddyn. Gallai hyn sicrhau gostyngiadau yn y gwariant o ryw **£14m** dros 2009-10 a 2010-11.

5.22 Byddai lleihau neu ddileu'r Taliadau Bwndeli Llys a'r Ffioedd Paratoadau Arbennig yn lleihau gwariant y CFfTG a thrwy hynny helpu i gysoni taliadau eiriolaeth teulu twrneiod a bargyfreithwyr. Byddai'n hawdd i'w ddefnyddio a'i ddeall. Byddai hefyd yn fodd i'r Adran weithredu o fewn ei chyllideb.

C9: Ai opsiwn C sydd orau gennych (dileu neu leihau Taliadau Bwndeli Llys a/neu Ffioedd Paratoadau Arbennig) o'i gymharu â'r opsiynau eraill? Pa fanteision a gynigir ganddo?

C10: A oes rhesymau dros beidio â dewis opsiwn C? Beth ydynt?

C11: A oes modd lliniaru unrhyw rai o anfanteision opsiwn C?

C12: I ba raddau y dylid lleihau neu ddileu'r Ffioedd Paratoadau Arbennig a/neu'r Taliadau Bwndeli Llys?

Y Trefniadau Pontio a Gynigir

5.23 Yn amodol ar ganlyniad yr ymgynghoriad hwn, bwriadwn gyflwyno'r newidiadau i'r holl waith eiriolaeth teulu lle cyfarwyddir cwnsler i ymgymryd â'r gwaith hwnnw ar neu ar ôl y dyddiad gweithredu (yn gynnar yn 2009).

5.24 Bydd ymgynghoriad yn cael ei gynnal ym Medi 2008 ar y cynllun eiriolaeth teulu sengl newydd sy'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd gan y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol. Disgwylir i'r cynllun hwnnw gael ei roi ar waith ar 1 Ebrill 2010. Disgwylir mai dim ond i achosion newydd ar y dyddiad hwnnw neu wedyn y bydd yn berthnasol.

5.25 Golyga hyn y bydd y cynigion yn y papur hwn yn berthnasol yn syth ar ôl ei weithredu a byddant yn dal yn berthnasol i'r achosion yr effeithir arnynt tan ddiwedd yr achos. Nid yw'n debygol yr effeithir ar achosion sy'n cael eu talu dan y newidiadau hyn i'r CFfTG gan y cynllun eiriolaeth teulu sengl newydd a gyflwynir.

5.26 Petai'r newidiadau i'r CFfTG a gyflwynir drwy'r ymgynghoriad presennol hwn yn cael eu cymhwyso yn hytrach i achosion newydd yn unig (yn hytrach na'r holl waith eiriolaeth teulu lle cyfarwyddir cwnsler i ymgymryd â'r gwaith hwnnw ar y dyddiad gweithredu neu wedi hynny, fel y nodir uchod), yna byddai gostyngiadau yn y gwariant yn digwydd yn arafach. Y rheswm dros hyn yw bod achosion yn cymryd hyn a hyn o amser i fynd drwy'r llysoedd, ac mae'r gostyngiadau'n berthnasol dim ond i waith a wneir wrth i'r achosion newydd fynd rhagddynt. Pe dewisid y trefniant pontio hwn, yna, er mwyn sicrhau'r gostyngiadau gofynnol yng ngwariant y CFfTG dros 2009-2011, byddai'n rhaid i unrhyw ostyngiadau i'r CFfTG, megis y rhai a ddisgrifir uchod, fod gryn dipyn yn fwy na'r rhai y byddai eu hangen dan ein trefniant pontio dewisol.

C13: Ydych chi'n cytuno â'n cynigion ynghylch trefniadau pontio? Os nad ydych, esboniwch pam os gwelwch yn dda.

C14: Oes gennych chi unrhyw sylwadau neu awgrymiadau eraill?

Holiadur

Isod ceir crynodeb o'r cwestiynau ymgynghori.

C1: Ai opsiwn A sydd orau gennych (gostyngiadau ar draws y bwrdd) o'i gymharu â'r opsiynau eraill? Pa fanteision a gynigir ganddo?

C2: A oes rhesymau dros beidio â derbyn opsiwn A? Beth ydynt?

C3: A oes modd lliniaru unrhyw rai o anfanteision opsiwn A?

C4: Ar ba lefel y dylid gosod gostyngiad o'r fath? Pam?

C5: Ai opsiwn B sydd orau gennych (dileu neu leihau'r Taliadau Materion Arbennig) o'i gymharu â'r opsiynau eraill? Pa fanteision a gynigir ganddo?

C6: A oes rhesymau dros beidio â dewis opsiwn B? Beth ydynt?

C7: A oes modd lliniaru unrhyw rai o anfanteision opsiwn B?

C8: I ba raddau y dylid lleihau neu ddileu'r Taliadau Materion Arbennig?

C9: Ai opsiwn C sydd orau gennych (dileu neu leihau Taliadau Bwndeli Llys a/neu Ffioedd Paratoadau Arbennig) o'i gymharu â'r opsiynau eraill? Pa fanteision a gynigir ganddo?

C10: A oes rhesymau dros beidio â dewis opsiwn C? Beth ydynt?

C11: A oes modd lliniaru unrhyw rai o anfanteision opsiwn C?

C12: I ba raddau y dylid lleihau neu ddileu'r Ffioedd Paratoadau Arbennig a/neu'r Taliadau Bwndeli Llys?

C13: Ydych chi'n cytuno â'n cynigion ynghylch trefniadau pontio? Os nad ydych, esboniwch pam os gwelwch yn dda.

C14: Oes gennych chi unrhyw sylwadau neu awgrymiadau eraill?

Diolch am gymryd rhan yn yr ymarfer ymgynghori hwn.

Amdanoch chi

Defnyddiwch yr adran hon i roi gwybodaeth inni amdanoch chi

Enw llawn	
Teitl eich swydd neu ym mha gapasiti yr ydych yn ymateb i'r ymgynghoriad hwn (e.e. fel aelod o'r cyhoedd ayb)	
Dyddiad	
Enw'r cwmni / mudiad (os yw'n berthnasol):	
Cyfeiriad	
Cod Post	
Os hoffech inni gydnabod ein bod wedi derbyn eich ymateb, ticiwch y blwch hwn os gwelwch yn dda	☐ (ticiwch y blwch os gwelwch yn dda)
Y cyfeiriad y dylid anfon y llythyr cydnabod iddo, os yw'n wahanol i'r uchod	

Os ydych yn cynrychioli grŵp, rhowch enw'r grŵp ynghyd â chrynodeb o'r bobl neu'r sefydliadau yr ydych yn eu cynrychioli.

Manylion cysylltu/Sut i ymateb

Anfonwch eich ymateb os gwelwch yn dda erbyn **Dydd Mercher 10 Medi 2008** at:

Susan Chamberlain
Civil and Family Legal Aid Strategy
Ministry of Justice
3.17 Selborne House
54-60 Victoria Street
Llundain SW1E 6QW

Ffacs: 020 7210 8780
E-bost: susan.chamberlain@justice.gsi.gov.uk

Mwy o gopïau

Mae copïau ychwanegol o'r ymgynghoriad hwn ar gael o'r cyfeiriad hwn a hefyd ar-lein yn http://www.justice.gov.uk/index.htm.

Mae fformatau eraill o'r cyhoeddiad hwn ar gael drwy wneud cais i'r cyfeiriad uchod.

Cyhoeddi ymatebion

Cyhoeddir papur yn crynhoi'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwn ymhen 3 mis. Bydd y papur ymatebion ar gael ar-lein yn http://www.justice.gov.uk/index.htm.

Grwpiau cynrychioladol

Gofynnwn i grwpiau cynrychioliadol restru'n gryno y bobl a'r sefydliadau y maent yn eu cynrychioli wrth ymateb.

Cyfrinachedd

Mae'n bosib y bydd gwybodaeth a ddarparwyd mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn, gan gynnwys gwybodaeth bersonol, yn cael ei chyhoeddi neu ei datgelu yn unol â'r trefniadau mynediad at wybodaeth (yn fwyaf penodol, Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Deddf Diogelu Data 1998 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004).

Os byddai'n well gennych inni drin y wybodaeth a roddwch yn gyfrinachol, cofiwch, o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, bod yn rhaid i awdurdodau cyhoeddus gydymffurfio â Chod Ymarfer statudol sy'n delio, ymhlith pethau eraill, â dyletswyddau cyfrinachedd. O ystyried hyn, byddai o gymorth i ni pe gallech roi eich rhesymau pam y credwch fod y wybodaeth a roddwch yn gyfrinachol. Os byddwn yn derbyn cais i ddatgelu'r wybodaeth, byddwn yn ystyried eich eglurhad yn ofalus, ond ni allwn roi sicrwydd y gellir cadw cyfrinachedd ar bob achlysur. Ni fydd ymwadiad cyfrinachedd awtomatig a gynhyrchir gan eich system TG, ynddo'i hun, yn cael ei ystyried i fod yn rhwymo'r Weinyddiaeth.

Bydd y Weinyddiaeth yn prosesu eich data personol yn unol â'r Ddeddf Diogelu Data ac, yn y rhan fwyaf o amgylchiadau, bydd hyn yn golygu na fydd eich data personol yn cael ei ddatgelu i drydydd partïon.

Amserlen Ymgynghorol Ddangosol

Dyddiad	**Digwyddiad**
18 Mehefin - 10 Medi 2008	Ymgynghoriad 12 wythnos ar y cynigion
Medi 2008	Cyhoeddi papur ymgynghori ar waith teulu cam 2, gan gynnwys un cynllun ffioedd eiriolaeth ar gyfer twrneiod a bargyfreithwyr o 2010 ymlaen
Tachwedd 2008	Cyhoeddi papur ymatebion yr ymgynghoriad a'r Asesiad Effaith terfynol
Diwedd 2008 / Dechrau 2009	Ymgynghoriad 4 wythnos ar newid Gorchymyn FfTG
Ionawr / Chwefror 2009	Gorchymyn wedi'i wneud
Chwefror/ Mawrth 2009	Gorchymyn diwygio'r FfTG yn dod i rym

Asesiad Effaith

Mae'r tudalennau canlynol yn cynnwys yr Asesiad Effaith cychwynnol.

Crynodeb: Ymyrryd ac Opsiynau

Adran/Asiantaeth:	**Teitl:**	
Y Weinyddiaeth Gyfiawnder	**Asesiad o Effaith ymgynghori ar newidiadau i ffioedd cymorth cyfreithiol am waith teulu ar gyfer bargyfreithwyr**	
Cam: Ymgynghori	**Fersiwn:** 1.0	**Dyddiad:** 18 Mehefin 2008

Cyhoeddiadau Cysylltiedig: Gweithred gyfreithiol o gytundeb rhwng y Weinyddiaeth Gyfiawnder, y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol a Chymdeithas Cyfreithwyr Cymru a Lloegr.

Ar gael i'w gweld neu i'w lawrlwytho yn:

http://www.legalservices.gov.uk/docs/civil_contracting/FinalDeedofSettlement.pdf

Cyswllt ar gyfer ymholiadau: Selma Waley **Rhif Ffôn:** 0207 210 8355

Beth yw'r broblem dan sylw? Pam fod angen i'r llywodraeth ymyrryd?

Mae cymorth cyfreithiol yn gweithredu o fewn cyllideb benodedig ond mae'r gwariant dan y Cynllun Ffioedd Teulu Graddedig (CFfTG) ar gyfer bargyfreithwyr wedi codi'n gyson. Os bydd hyn yn parhau gallai arwain at lai o gleientiaid yn gymwys neu lai o wasanaethau'n gymwys. Mae gwahaniaethau mawr hefyd rhwng y ffordd y mae twrneiod a bargyfreithwyr yn cael eu talu am yr un gwaith eiriolaeth mewn achosion teulu.

Beth yw'r amcanion polisi a'r effeithiau bwriedig?

Drwy leihau'r taliadau a wneir i fargyfreithwyr cymorth cyfreithiol teulu dan y Cynllun Ffioedd Teulu Graddedig byddwn yn gallu gweithredu o fewn yr adnoddau a ddyrennir inni. Bydd hyn yn help i leihau'r risg o doriadau i'r gwasanaethau cymorth cyfreithiol i gleientiaid. Hefyd, bydd yn gam cyntaf tuag at gysoni taliadau i gyfreithwyr a bargyfreithwyr sy'n darparu gwasanaeth eiriolaeth.

Pa opsiynau polisi sydd wedi cael eu hystyried? Dylech gyfiawnhau unrhyw opsiwn yr ydych o'i blaid.

Dan y contractau presennol, ni ellir newid y taliadau cymorth cyfreithiol i dwrneiod nes y cyhoeddir contractau newydd yn 2010. Nid yw'r Llywodraeth am weld gostyngiadau yn niferoedd y cleientiaid sifil na chymhwysedd cleientiaid, ac mae am helpu cynifer â phosibl o bobl o fewn yr adnoddau sydd eisoes ar gael. Mae'r ymgynghoriad yn cynnig gostyngiadau i daliadau a wneir i fargyfreithwyr. Mae'r opsiynau polisi a nodir yn y papur ymgynghori fel a ganlyn (a) gostyngiad uniongyrchol i'r holl ffioedd a chyfraddau, (b) dileu neu leihau'r Taliadau Materion Arbennig, ac (c) dileu neu leihau'r Ffioedd Paratoadau Arbennig a'r Taliadau Bwndeli Llys.

Pryd y bydd y polisi'n cael ei adolygu i sefydlu union gostau a buddion yr effeithiau a geisir a chyflawni'r rheini?

Mae'r Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol yn casglu data'n gyson i asesu'r gwariant ar gymorth cyfreithiol, a hwnnw'n cael ei grynhoi ar ddechrau bob blwyddyn ariannol yn eu Hadroddiad Blynyddol

Llofnod Cymeradwyaeth y Gweinidog Ar gyfer Asesiadau Effaith yn y cam ymgynghori:

Yr wyf wedi darllen yr Asesiad Effaith ac yr wyf yn fodlon, gan ystyried y dystiolaeth sydd ar gael, ei fod yn rhoi barn resymol am gostau, buddion ac effaith debygol y prif opsiynau.

Llofnodwyd gan y Gweinidog cyfrifol:

.....Dyddiad:

Crynodeb: Dadansoddiad a Thystiolaeth

Opsiwn Polisi: Lleihau ffioedd	Disgrifiad: ymgynghori ar newidiadau i ffioedd cymorth cyfreithiol gwaith teulu ar gyfer bargyfreithwyr

COSTAU

COSTAU BLYNYDDOL

Un-tro (Pontio)	Bl.
£	2

Cost flynyddol gyfartalog (ac eithrio cost un-tro)

£ oddeutu £6.5m

Disgrifiad o'r **costau allweddol a drosir yn arian (*monetised*), a'u maint,** yn ôl y 'prif grwpiau yr effeithir arnynt' Y prif grŵp yr effeithir arno fydd oddeutu 3000 aelod o far y teulu sy'n gwneud gwaith teulu a ariennir gan gymorth cyfreithiol.

Cyfanswm Cost (PV) **£ oddeutu £13m**

Costau allweddol eraill heb eu trosi'n arian yn ôl y 'prif grwpiau yr effeithir arnynt'

BUDDION

BUDDION BLYNYDDOL

Un-tro	Bl.
£ 0	2

Buddion Blynyddol Cyfartalog (ac eithrio un-tro)

£ oddeutu £6.5m

Disgrifiad o'r **costau allweddol a drosir yn arian, a'u maint,** yn ôl y 'prif grwpiau yr effeithir arnynt' Bydd gostyngiadau yn y taliadau cymorth cyfreithiol o fudd i'r Llywodraeth a'r Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol, gan eu galluogi i fyw o fewn eu cyllideb ddynodedig. Bydd y gostyngiadau hefyd o fudd anuniongyrchol i gleientiaid gan na fydd yn rhaid lleihau'r gwasanaethau er mwyn unioni'r diffyg penodol hwn.

Cyfanswm y Budd (PV) **£ oddeutu £13m**

Buddion allweddol eraill heb eu trosi'n arian yn ôl y 'prif grwpiau yr effeithir arnynt' Bydd y gostyngiadau o fudd i dwrneiod sy'n cynnal gwaith eiriolaeth teulu gan ei fod yn gam cyntaf tuag at gysoni'r cyfraddau talu.

Tybiaethau / Ystyriaethau Sensitif / Risgiau Allweddol Un risg yw y gallai'r gostyngiad yn y cyfraddau leihau nifer y bargyfreithwyr sy'n fodlon gwneud y gwaith hwn, a rhaid monitro hyn. Ond, mae'r defnydd o gwnsleriaid wedi codi'n sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ac roedd yn dal i godi mewn rhai meysydd hyd yn oed pan oedd y ffioedd yn is cyn 2005.

Sail Brisiau - Bl. 2008	Cyfnod Amser Blynyddoedd - 2	Ystod y Buddion Net (NPV) £	BUDD NET (NPV- Amcangyfrif gorau) £

Beth yw dosbarthiad daearyddol y polisi / opsiwn?			Cymru a Lloegr	
Ar ba ddyddiad y daw'r polisi'n weithredol?			Chwefror 2009	
Pa gorff (gyrff) fydd yn gorfodi'r polisi?			Comisiwn Gwas Cyf	
Beth yw cyfanswm blynyddol y gost o orfodi ar gyfer y cyrff hyn?			£ 0	
A ydy'r trefniadau gorfodi yn cydymffurfio ag egwyddorion Hampton?			Ydy	
A fydd ei weithrediad yn mynd y tu hwnt i ofynion sylfaenol yr UE?			Amh	
Beth yw gwerth y mesur gwrthbwyso arfaethedig y flwyddyn?			£ 0	
Beth yw gwerth y newidiadau mewn gollyngiadau tŷ gwydr?			£ 0	
A fydd y cynnig yn effeithio'n sylweddol ar gystadleuaeth?			Na	
Y gost flynyddol (£-£) i bob corff (ac eithrio costau un-tro)	Meicro	Bach	Canolig	Mawr
A oes unrhyw un o'r cyrff hyn wedi eu heithrio?	Na	Na	Amh	Amh

Effaith ar Brisiau Sylfaen y Baich Gweinyddol (prisiau 2005) (Cynnydd - Lleihad)

Cynnydd o £ 0 Lleihad o £ 0 **Effaith net** **£** 0

Allwedd: **Costau a buddion blynyddol: Prisiau Cyson** **Gwerth Presennol (net)**

Sail Dystiolaeth (ar gyfer crynodebau)

[Defnyddiwch y lle gwag hwn (gydag uchafswm o 30 tudalen yn cael ei argymell) i nodi'r dystiolaeth, y dadansoddiad a naratif manwl a ddefnyddiwyd gennych i gynhyrchu'ch opsiynau polisi neu gynnig. Sicrhewch fod y wybodaeth wedi'i threfnu mewn ffordd sy'n esbonio'n glir y wybodaeth gryno ar dudalennau blaenorol y ffurflen hon.]

Cynllun taliadau graddedig cymhleth yw'r Cynllun Ffioedd Teulu Graddedig (CFfTG) sy'n pennu'r trefniadau ar gyfer taliadau i fargyfreithwyr sy'n gwneud gwaith cymorth cyfreithiol teulu mewn 4 categori: Gwaharddebau teulu; Cyfraith gyhoeddus – plant; Cyfraith breifat – plant (heb gynnwys llareiddiad ategol); a Llareiddiad Ategol. Mae ffioedd safonol, ychwanegiadau a thaliadau ategol yn daladwy ymhob un categori, ond mae union swm y ffi neu'r ychwanegiad yn amrywio o gategori i gategori. Mae ffioedd safonol yn daladwy am wahanol fathau o weithgarwch.

Mae cymorth cyfreithiol yn gweithredu o fewn cyllideb benodol. Mae'n rhaid i'r Adran weithredu i aros o fewn ei chyllideb, gan sicrhau'r un pryd fod gwasanaethau'n cael eu darparu gan nifer digonol o unigolion a chyrff cymwys. Mae gohirio'r trefniadau eiriolaeth teulu newydd tan 2010 a oedd i gael eu rhoi ar waith yn Ebrill 2008 fel rhan o gytundeb datrys anghydfodau'r Contract Unedig yn golygu na fydd y gostyngiadau a ragwelwyd yng ngwariant y CFfTG o £13m dros 2009-2011 yn cael eu gwireddu bellach. Hefyd, bydd y gwahaniaeth a geir ar hyn o bryd rhwng cyfraddau taliadau i dwrneiod a bargyfreithwyr am waith eiriolaeth teulu yn dal i fodoli oni weithredir ar y mater. Felly, mae'r cynigion isod ar gyfer ymgynghori arnynt yn nodi'r opsiynau gwahanol ar gyfer lleihau gwariant y CFfTG er mwyn gallu gweithredu o fewn y gyllideb, gan sicrhau hefyd y darperir gwasanaethau gan niferoedd digonol o eiriolwyr cymwys, a chymryd y cam cyntaf i gysoni taliadau am waith eiriolaeth.

Byw o fewn y Gyllideb

Mae oddeutu chwarter y gyllideb cymorth cyfreithiol o £2bn yn cael ei wario ar achosion teulu. Er enghraifft, yn 2006-2007, gwariwyd £535m (arian) ar achosion teulu (achosion ardystiedig a help cyfreithiol). Talwyd oddeutu 18% o'r gwariant teulu i fargyfreithwyr drwy'r Cynllun Ffioedd Teulu Graddedig. Mae dros 3000 o fargyfreithwyr yn gwneud gwaith teulu a ariennir drwy gymorth cyfreithiol. Mae'r gwariant dan y CFfTG wedi parhau i gynyddu'n sylweddol. Dengys **Tabl 1** gyfanswm y gwariant yn fras dan y CFfTG yn ystod y pum mlynedd diwethaf.

Tabl 1 – CFfTG – Biliau a Dalwyd (arian)[1]

Blwyddyn	Cyfraith Breifat[2]	Cyfraith Gyhoeddus[3]	Cyfanswm y Gwariant	Y newid o un flwyddyn i'r llall
2003-04	£38.3m	£35.9m	**£74.2m**	
2004-05	£41m	£42.6m	**£83.6m**	+12.7%
2005-06	£45.4m	£45.2m	**£90.6m**	+8.5%
2006-07	£47.3m	£46.8m	**£94.1m**	+3.7%
2007-08	£50.8m	£47.4m	**£98.2m**	+4.4%

Mae Tabl 1 yn cynrychioli'r biliau a dalwyd o un flwyddyn i'r llall. Mae'n rhoi'r amcan gorau o faint a delir dan y cynllun ymhob blwyddyn ariannol. Dangosir bod cyfanswm y gwariant wedi codi'n sylweddol. Nid ydym wedi newid y ffigurau am y 'biliau a dalwyd' i gyfartaleddau fesul achos oherwydd bod cyfran achos sy'n cael ei filio mewn blwyddyn yn amrywio oherwydd nifer o ffactorau ac felly nid yw tueddiadau 'biliau a dalwyd' ar lefel achos unigol yn bwysig o anghenraid.

Er mwyn edrych ar y tueddiadau yng nghostau achos ar gyfartaledd, arweiniad mwy dibynadwy yw'r cyfanswm a dalwyd ar ddiwedd achos sydd wedi cau. Mae **Tabl 2** yn nodi cyfanswm y gwariant ar achosion caeedig a'r tueddiadau yng nghostau achos ar gyfartaledd dros y pedair blynedd diwethaf y mae gennym ffigurau ar eu cyfer (nid yw ffigurau sydd wedi'u cadarnhau ar gyfer 2007-08 ar gael eto).

[1] Mae ffigurau gwariant yn amrywio ychydig gan y'u diweddarir yn rheolaidd gyda'r wybodaeth ddiweddaraf gan y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol. Mae'r ffigurau hyn yn seiliedig ar wybodaeth gyfredol. Defnyddir y ffigurau diweddaraf i benderfynu ar y ffordd ymlaen ar ôl yr ymgynghoriad.
[2] Mae Cyfraith Breifat yn cynnwys gwaith categori 1 (gwaharddebau - teulu), 3 (cyfraith breifat – plant) a 4 (llareiddiad ategol) y CFfTG.
[3] Mae Cyfraith Gyhoeddus yn cynnwys gwaith categori 2 (cyfraith gyhoeddus - plant) y CFfTG.

Tabl 2 – CFfTG – Costau Achosion Caeedig[4]			
Cyfraith Gyhoeddus			
blwyddyn cau	*Nifer yr achosion yn defnyddio cwnsler*	*Ffi Teulu Graddedig ar gyfartaledd fesul achos*	*Cyfanswm gwariant y CFfTG*
2003-04	10,391	£1,576	**£16.4m**
2004-05	11,003	£2,307	**£25.4m**
2005-06	12,208	£2,803	**£34.2m**
2006-07	12,857	£2,837	**£36.5m**
Cyfraith Breifat			
blwyddyn cau	*Nifer yr achosion yn defnyddio cwnsler*	*Ffi Teulu Graddedig ar gyfartaledd fesul achos*	*Cyfanswm gwariant y CFfTG*
2003-04	42,853	£458	**£19.6m**
2004-05	40,046	£641	**£25.7m**
2005-06	40,785	£801	**£32.7m**
2006-07	40,336	£890	**£35.9m**
Cyffredinol			
blwyddyn	*Cyfanswm gwariant y CFfTG*	*Y newid o un flwyddyn i'r llall*	
2003-04	**£36m**		
2004-05	**£51m**	+42%	
2005-06	**£66.9m**	+31%	
2006-07	**£72.4m**	+8%	

Dengys tabl 2 fod cyfanswm y gwariant ar gyfer Cyfraith Gyhoeddus a Phreifat wedi cynyddu'n sylweddol yn ystod y pedair blynedd diwethaf, gan ddyblu dros y cyfnod hwnnw. Cynyddodd y gwariant er gwaethaf gostyngiad yn nifer y tystysgrifau cyfraith breifat a roddwyd, ac, yng nghyswllt cyfraith gyhoeddus a phreifat, cynyddodd y gwariant yn fwy na'r cynnydd yn y niferoedd. Mae costau achos ar gyfartaledd ym maes Cyfraith Gyhoeddus a Phreifat wedi codi'n sylweddol hefyd, gan ddyblu bron mewn pedair blynedd.

Nod cynllun eiriolaeth teulu newydd yn Ebrill 2008 fuasai cynnal y gwariant cyfredol ar eiriolaeth teulu gan dwrneiod a bargyfreithwyr. Byddai hyn wedi golygu y byddai cyfanswm y gwariant wedi aros yn gyson, yn seiliedig ar yr un maint o waith. Petai'r niferoedd yn cynyddu, byddai mwy'n cael ei wario. Ond, byddai'r cynllun i bob pwrpas wedi capio costau ac wedi atal rhagor o godiadau o un-flwyddyn-i'r-llall yn y costau cyfartalog, a thrwy hynny gael gwared ag elfen chwyddiant codiadau mewn gwariant.

Roedd amcanestyniadau cyllidebol yr Adran wedi ystyried y capio hwn ar wariant, ac roedd gostyngiad yn y gwariant o ryw **£13m** yn cael ei ragweld dros y ddwy flynedd nesaf, fel y nodir yn **Nhabl 3**.

Tabl 3 – Gostyngiadau a Ragwelir mewn Gwariant dan Gynllun Eiriolaeth Teulu Ebrill 2008 (RAB)[5]	
2009-10	£1m
2010-11	£12m

Mae cymorth cyfreithiol yn gweithredu o fewn cyllideb benodol. Gan fod y trefniadau eiriolaeth teulu newydd wedi'u gohirio tan 2010, rhaid i'r Adran weithredu i aros o fewn y gyllideb. Felly, mae'r cynigion isod ar gyfer ymgynghori arnynt yn nodi opsiynau gwahanol ar gyfer lleihau gwariant y CFfTG er mwyn gallu gweithredu o fewn y gyllideb, gan sicrhau hefyd y darperir gwasanaethau gan niferoedd digonol o eiriolwyr cymwys.

Bydd y Weinyddiaeth Gyfiawnder a'r Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol hefyd yn parhau i ystyried a oes angen unrhyw fesurau i gyfyngu ar y galw am fathau penodol o gymorth cyfreithiol sifil, yn arbennig ar gyfer rhan olaf y cyfnod a gwmpesir gan y Cynlluniau Gwariant presennol. Os bydd angen cyflwyno rhai mesurau, byddant yn seiliedig ar asesiad o flaenoriaethau cymharol ac fe ymgynghorir arnynt. Yn naturiol, os na

[4] Mae ffigurau gwariant yn amrywio ychydig gan y'u diweddarir yn rheolaidd gyda'r wybodaeth ddiweddaraf gan y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol. Mae'r ffigurau hyn yn seiliedig ar wybodaeth gyfredol. Defnyddir y ffigurau diweddaraf i benderfynu ar y ffordd ymlaen ar ôl yr ymgynghoriad

[5] Mae ffigurau gwariant yn amrywio ychydig gan y'u diweddarir yn rheolaidd gyda'r wybodaeth ddiweddaraf gan y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol. Mae'r ffigurau hyn yn seiliedig ar wybodaeth gyfredol. Defnyddir y ffigurau diweddaraf i benderfynu ar y ffordd ymlaen ar ôl yr ymgynghoriad.

weithredwn i leihau'r gwariant ar y CFfTG a byw o fewn y gyllideb, byddai angen i unrhyw gyfyngiadau a argymhellir i'r galw gan gleientiaid fod yn fwy sylweddol.

Opsiwn A: Gostyngiadau ar Draws y Bwrdd yng nghyfraddau'r CFfTG a'r taliadau ategol

Gyda'r opsiwn hwn, byddai'r holl ffioedd sylfaenol a ffioedd uned gwrandawiad yn cael eu gostwng gan ganran benodedig. Ni fyddai'r gostyngiad hwn yn berthnasol i Daliadau Materion Arbennig, Atodiadau Setlo na'r ychwanegiad ar gyfer yr Uchel Lys (gan fod y rhain yn gweithredu fel lluosyddion, byddai unrhyw ostyngiad yn y ffioedd sylfaenol ac uned gwrandawiad yn effeithio hefyd ar y lluosyddion hyn yn anuniongyrchol), ond mi fyddai'n berthnasol i bob taliad ategol arall h.y. Taliadau Bwndeli Llys, Taliadau Datrys Anghydfod Ariannol, Taliadau Achlysurol a Ffioedd Paratoadau Arbennig.

Byddai'r opsiwn hwn yn helpu i gysoni taliadau eiriolaeth teulu twrneiod a bargyfreithwyr. Byddai hefyd yn helpu'r Adran i weithredu o fewn ei chyllideb. Er enghraifft, byddai gostyngiad **7%** mewn gwariant, ar gyfer pob gwaith newydd a ddechreuir (biliau a dalwyd 07-08), yn lleihau'r gwariant oddeutu **£7m** (*RAB*) y flwyddyn. Gallai hyn sicrhau gostyngiadau o **£14m** dros 2009-10 a 2010-11.

Hefyd, mae'r opsiwn hwn yn deg, o ran ei fod yn berthnasol i bob categori gwaith fel ei gilydd, ac i bob eiriolwr fel ei gilydd beth bynnag yw eu patrwm hawlio. Byddai gostyngiad ar draws y bwrdd yn lleihau gwariant y CFfTG a thrwy hynny helpu i gysoni taliadau eiriolaeth teulu twrneiod a bargyfreithwyr. Byddai'r opsiwn hwn yn syml i'w ddeall, ei gymhwyso a'i weinyddu.

Opsiwn B: Dileu'r holl Daliadau Materion Arbennig

Gyda'r opsiwn hwn byddai'r Taliadau Materion Arbennig yn cael eu dileu neu eu lleihau. Mae'r Taliadau Materion Arbennig yn cael eu hawlio'n eithaf rheolaidd. Er enghraifft, yn 2006-07 hawliwyd Taliadau Materion Arbennig mewn 62% o hawliadau'r CFfTG (mewn achosion caeedig). Lle cawsant eu hawlio, roedd cyfartaledd o 7.37 Taliad Materion Arbennig wedi'u hawlio (mae llawer ohonynt yn cael eu hawlio fwy nag unwaith; ar gyfartaledd hawlir 2.4 Taliad Materion Arbennig gwahanol). Yn 2007-08, arhosodd cyfran y Taliadau Materion Arbennig a hawliwyd yn statig ar 62%.

Byddai dileu neu leihau'r Taliadau Materion Arbennig yn dal i olygu y gallai eiriolwyr barhau i hawlio ffioedd sylfaenol a ffioedd uned gwrandawiad a mathau eraill o ychwanegiadau (e.e. Atodiadau Setlo) neu daliadau ategol (e.e. taliadau bwndel llys).

Mae rhanddeiliaid gan gynnwys y proffesiynau a'r farnwriaeth wedi nodi bod y cynllun talu presennol yn rhy gymhleth, ac y dylid ailystyried rôl Taliadau Materion Arbennig. Felly, mae'n debygol y bydd cynigion ar gyfer y cynllun eiriolaeth teulu newydd ar gyfer Ebrill 2010 yn cynnwys symleiddio'r drefn yn sylweddol. Byddai dileu'r Taliadau Materion Arbennig yn gosod y sylfaen ar gyfer y symleiddio hwn (ond gweler isod).

Byddai dileu'r Taliadau Materion Arbennig yn lleihau gwariant y CFfTG a thrwy hynny helpu i gysoni taliadau eiriolaeth teulu twrneiod a bargyfreithwyr. Er enghraifft, mae cyfanswm y gwariant ar Daliadau Materion Arbennig i'w weld yn **Nhabl 4** isod:

Tabl 4 – CFfTG – Taliadau Materion Arbennig - Biliau a Dalwyd (arian)

Blwyddyn	Cyfraith Breifat	Cyfraith Gyhoeddus	Cyfanswm y Gwariant
2003-04	£4.7m	£10.1m	**£14.8m**
2004-05	£5.9m	£11.7m	**£17.6m**
2005-06	£7.6m	£13m	**£20.6m**
2006-07	£9.5m	£14.6m	**£24.1m**
2007-08	£11.7m	£15.3m	**£27m**

Gallai hefyd wneud y CFfTG yn llawer symlach, gan gael gwared â'r angen i gyfrifo effaith y Taliadau Materion Arbennig perthnasol ar y ffi. Gallai hefyd olygu na fyddai angen i farnwyr ardystio'r Taliadau Materion Arbennig a hawlir gan eiriolwyr, gan helpu o bosibl i leihau unrhyw faich gweinyddol ar y farnwriaeth. Lle prosesir biliau gan y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol, byddai'r broses asesu'n cael ei symleiddio, gan arwain at arbedion gweinyddol bychan o bosibl.

Un mater i'w ystyried gyda'r opsiwn hwn yw bod Taliadau Materion Arbennig yn cyfrannu symiau gwahanol at wariant mewn categorïau gwaith gwahanol. Er enghraifft, mae Taliadau Materion Arbennig yn ffurfio 29.4% o'r gwariant mewn achosion Deddf Plant Arbennig (categori 2), ond dim ond 20.6% o'r gwariant mewn achosion

darpariaethau ariannol (categori 4). Gallai dileu'r holl Daliadau Materion Arbennig leihau'r taliadau ar gyfer rhai categorïau gwaith yn fwy nag eraill.

Un ateb posibl yn hyn o beth fyddai (petaem yn dileu'r Taliadau Materion Arbennig a sicrhau'r buddion a ddisgrifir uchod) ailgylchu rhywfaint o'r arian a dalwyd yn flaenorol mewn Taliadau Materion Arbennig ar gyfer codiadau yn y ffioedd sylfaenol. Gellid targedu'r arian hwn er mwyn cael gwared ag unrhyw anghysonderau a achosir gan Daliadau Materion Arbennig a delir ar gyfraddau gwahanol ar gyfer gwahanol gategorïau gwaith. Er enghraifft, ar sail ffigurau 07-08, petai'r Taliadau Materion Arbennig yn cael eu dileu ar gyfer pob gwaith newydd a gychwynnir, a bod 75% o'r hyn a werir ar Daliadau Materion Arbennig yn cael ei ailgylchu ar gyfer ffioedd sylfaenol, gellid lleihau gwariant **£6.75m** (RAB) y flwyddyn. Gallai hyn sicrhau gostyngiadau o **£13.5m** dros 2009-10 a 2010-11.

Opsiwn C: Dileu'r Ffioedd Paratoadau Arbennig a gostyngiad 50% yn y Taliadau Bwndeli Llys

Gyda'r opsiwn hwn byddai'r Ffioedd Paratoadau Arbennig a'r Taliadau Bwndeli Llys a delir ar hyn o bryd i eiriolwyr yn cael eu lleihau neu eu dileu.

Telir Ffioedd Paratoadau Arbennig ar gyfraddau penodol fesul awr tra bod Taliadau Bwndeli Llys yn symiau penodol - yn dibynnu ar faint y bwndel a'r math o wrandawiad. Ni fyddai'r gwariant a fyddai'n cael ei arbed gyda'r gostyngiad hwn yn cael ei ailgylchu'n ôl i'r ffioedd sylfaenol neu ychwanegiadau eraill.

Ffioedd Paratoadau Arbennig

Mae Ffioedd Paratoadau Arbennig yn cael eu hawlio'n eithaf rheolaidd. Yn 2006-07 cawsant eu hawlio mewn 29% o achosion caeedig. Yn 2007-08 cawsant eu hawlio mewn 28% o achosion caeedig. Mae dadansoddiad a gynhaliwyd gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi dangos bod y gwariant ar Ffioedd Paratoadau Arbennig wyth gwaith yn uwch na'r hyn a fwriadwyd yn 2005. Er enghraifft, yn 2007-08 tybiwyd y byddai'r gwariant ar Ffioedd Paratoadau Arbennig ryw £700k, ond y gwir ffigur oedd £5.5m – arweiniodd y gorwariant hwn at gynyddu gwariant y CFfTG **£4.8m**.

Tabl 5 – CFfTG – Gwariant ar Ffioedd Paratoadau Arbennig mewn achosion caeedig	
Blwyddyn	**Ffioedd Paratoadau Arbennig**
2003-04	£4.6m
2004-05	£6.6m
2005-06	£6.4m
2006-07	£6m
2007-08	£5.5m

Taliadau Bwndeli Llys

Mae Taliadau Bwndeli Llys yn cael eu hawlio'n rheolaidd. Yn 2006-07 cawsant eu hawlio mewn 45% o achosion caeedig. Yn 2007-08 cawsant eu hawlio mewn 46% o achosion caeedig. Yn y ddwy flynedd ar gyfartaledd cafodd 1.9 Taliad Bwndeli Llys eu hawlio. Mae'r Taliadau Bwndeli Llys yn cyfrannu cryn dipyn yn fwy i wariant y CFfTG nag a ragwelwyd. Mae'r Taliadau Bwndeli Llys dros ddwywaith yn fwy na'r hyn a fwriadwyd yn 2005. Er enghraifft, yn 2007-08 tybiwyd y byddai'r gwariant ar Daliadau Bwndeli Llys ryw £3.8m, ond y gwir ffigur oedd £8.6m – arweiniodd y gorwariant hwn at gynyddu gwariant y CFfTG **£4.8m**.

Tabl 6 – CFfTG – Gwariant ar Daliadau Bwndeli Llys mewn achosion caeedig	
Blwyddyn	**Taliadau Bwndeli Llys 1 a 2**
2003-04	£5.1m
2004-05	£6.9m
2005-06	£8.1m
2006-07	£8.3m
2007-08	£8.6m

Mae tabl 7 yn crynhoi cyfanswm y gwariant dros y pum mlynedd diwethaf ar Ffioedd Paratoadau Arbennig a Thaliadau Bwndeli Llys.

Tabl 7 – CFfTG – Cyfanswm y gwariant ar Ffioedd Paratoadau Arbennig a Thaliadau Bwndeli Llys mewn achosion caeedig	
Blwyddyn	**Taliadau Bwndeli Llys 1 a 2**
2003-04	£9.7m
2004-05	£13.5m
2005-06	£14.5m
2006-07	£14.3m
2007-08	£14.1m

Mae **Tabl 8** isod yn dangos sut y dosberthir y gwariant cyfredol ar Daliadau Bwndeli Llys a Ffioedd Paratoadau Arbennig rhwng 4 categori'r CFfTG.

Tabl 8 - Dadansoddiad yn ôl categorïau'r CFfTG o'r Gwariant ar Daliadau Bwndeli Llys a Ffioedd Paratoadau Arbennig mewn Achosion Caeedig (2007-08)				
	Cyfraith Gyhoeddus	**Cyfraith Breifat**	**Llareiddiad Ategol**	**Gwaharddebau**
Ffioedd Paratoadau Arbennig	£3.4m	£1.3m	£0.5m	£0.3m
Taliadau Bwndeli Llys	£5.3m	£1.9m	£0.9m	£0.5m

O wybod am y cynnydd sylweddol yn y gwariant ar Daliadau Bwndeli Llys a Ffioedd Paratoadau Arbennig a'n hangen ni i ddarparu gwasanaethau o fewn ein cyllideb benodol, mae'r opsiwn hwn yn cynnig dileu neu leihau'r taliadau hyn yn y CFfTG.

Fel y gellir ei weld o dabl 8, mae'r Taliadau Bwndeli Llys a'r Ffioedd Paratoadau Arbennig yn cyfrannu symiau gwahanol at gategorïau gwaith gwahanol. Byddai dileu'r Taliadau Bwndeli Llys a'r Ffioedd Paratoadau Arbennig yn golygu gostyngiad mwy sylweddol yn y gwariant mewn rhai categorïau nag eraill. Ond ar hyn o bryd mae'r ddau daliad ategol yn cyfrannu cryn dipyn yn fwy at wariant yn yr holl gategorïau nag a gynlluniwyd ar ei gyfer.

Un opsiwn yw lleihau'r Taliadau Bwndeli Llys a'r Ffioedd Paratoadau Arbennig o ganran. Byddai'r cyfryw ostyngiad yn berthnasol i bob categori gwaith fel ei gilydd a byddai'n cadw'r gwariant gwahaniaethol yn y categorïau gwaith gwahanol (ond ar gyfradd is). Er enghraifft, petaent yn cael eu lleihau 50% ar gyfer pob gwaith newydd a gychwynnir, byddai hyn yn gostwng gwariant y CFfTG oddeutu **£7m** (*RAB*) y flwyddyn. Gallai hyn sicrhau gostyngiadau yn y gwariant o ryw **£14m** dros 2009-10 a 2010-11.

Byddai lleihau neu ddileu'r Taliadau Bwndeli Llys a'r Ffioedd Paratoadau Arbennig yn lleihau gwariant y CFfTG a thrwy hynny helpu i gysoni taliadau eiriolaeth teulu twrneiod a bargyfreithwyr. Byddai'n hawdd i'w ddefnyddio a'i ddeall. Byddai hefyd yn fodd i'r Adran weithredu o fewn ei chyllideb.

Prawf Effaith ar Gwmnïau Bach

Cwmpas yr Effaith

Adolygwyd Prawf yr Adran Busnes, Menter a Diwygio Rheoleiddiol o'r Effaith ar Gwmnïau Bach gennym. Fel arfer trefnir bargyfreithwyr mewn 'siambrau' a gellid dadlau bod y rhain yn feicro fusnesau (1-9) neu'n fusnesau bach (10-49). Yn ôl ystadegau Cyngor y Bar (Rhagfyr 2007) ar wefan Cyngor y Bar, ceir 12,085 bargyfreithiwr yn y Bar hunangyflogedig, a 1223 o Gwnsleriaid y Frenhines (13,281). Mae ffigurau'n dangos bod 643 o siambrau bargyfreithwyr, a 309 o ymarferwyr unigol (2.3%). Mae'n bosib y gellid ystyried yr ymarferwyr unigol hyn yn 'fasnachwyr unigol'.

Yn ôl Cyngor y Bar, "efallai bod 50% o fargyfreithwyr yn ymgymryd â gwaith troseddol (amddiffyn neu erlyn), teulu, mewnfudo a gweinyddol a ariennir gan arian cyhoeddus..." (*Legal Aid and the Public Interest: towards*

an effective public-private partnership, Mai 2008). Dengys ystadegau'r Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol fod oddeutu 3000 o fargyfreithwyr yn darparu gwasanaethau a ariennir gan y pwrs cyhoeddus mewn achosion teulu. Os bydd cyfran y bargyfreithwyr sy'n ymarfer fel ymarferwyr unigol yn aros yn gyson ar gyfer bargyfreithwyr sy'n gwneud gwaith teulu fel ag ar gyfer bargyfreithwyr yn gyffredinol, yna byddem yn disgwyl i oddeutu 69 (2.3% o 3000) o'r bargyfreithwyr sy'n darparu gwasanaethau a ariennir o'r pwrs cyhoeddus fod yn ymarferwyr unigol, gyda'r mwyafrif llethol (2931 – 97.7%) mewn siambrau. Felly, bydd y cynigion polisi yn y papur ymgynghori yn effeithio'n bennaf ar feicro fusnesau a busnesau bychan yn hytrach nag ar fasnachwyr unigol. Dehongliad arall fyddai ystyried siambrau'n gasgliadau o 'fasnachwyr unigol', yn hytrach na meicro fusnesau a busnesau bychain ac, os felly, bydd y cynigion yn effeithio ar fasnachwyr unigol yn bennaf.
Yn dilyn gweithredu Deddf Gwasanaethu Cyfreithiol 2007, bydd bargyfreithwyr yn gallu ffurfio partneriaethau busnes gyda chyfreithwyr a phobl nad ydynt yn gyfreithwyr. Bydd hyn yn debygol o gynyddu maint y busnesau y mae bargyfreithwyr yn perthyn iddynt, a symud rhywfaint o effaith y cynigion polisi hyn i fusnesau mwy. Ond, mae'n annhebyg y bydd hyn yn cael ei weithredu cyn 2010, ac felly mae'n bosibl na fydd yr effaith hon yn berthnasol iawn.

Effaith ar Fargyfreithwyr Teulu

Ni fu modd asesu'n gywir effaith ariannol y newidiadau arfaethedig ar fargyfreithwyr teulu sy'n gwneud y gwaith cymorth cyfreithiol hwn.

Er mwyn dechrau cyfrifo effaith newidiadau'r ffioedd teulu yn llawn, mae angen i ni wybod gwerth ariannol gwaith cymorth cyfreithiol y mae bargyfreithwyr unigol yn ei wneud a byddai angen inni hefyd wybod faint o incwm ychwanegol yr enillodd bargyfreithwyr unigol o'r ddau fath arall o waith cymorth cyfreithiol (e.e. troseddol neu sifil heb fod yn waith teulu), ac o incwm a enillwyd yn breifat. Byddai deall y ffactorau hyn yn rhoi syniad inni ar faint o incwm bargyfreithwyr y byddai'r gostyngiadau arfaethedig yn effeithio arno. Er bod gan y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol rywfaint o ddata ar daliadau cymorth cyfreithiol, nid oes gennym wybodaeth am incwm bargyfreithwyr teulu unigol y maent yn ei ennill drwy fusnes preifat. Rydym yn annog cyrff cynrychioliadol a rhanddeiliaid eraill i ddarparu data perthnasol sydd yn eu meddiant a fyddai'n helpu i feintioli effaith y newidiadau.

Yn 2004, roedd dadansoddiad fel petai'n dangos bod y CFfTG wedi bod yn fwy llwyddiannus nag a fwriadwyd yn rheoli gwariant. Ymddangosai bryd hynny fod y CFfTG wedi lleihau gwariant oddeutu 13% o'i gymharu â'r gwariant dan y cynllun ex post facto, yn hytrach nag oddeutu 5% fel y rhagwelwyd. Cytunodd yr Arglwydd Ganghellor bryd hynny i adolygu rhagor ar y cynllun, gan gynnwys cynnydd mewn rhai ffioedd, er mwyn cynyddu gwariant y CFfTG oddeutu 8% o fis Chwefror 2005 ymlaen.

Er nad oedd tystiolaeth i ddangos nad oedd achosion teulu'n cael cynrychiolaeth briodol dan y CFfTG, cyflwynwyd tystiolaeth ar y pryd fod twrneiod yn teimlo ei fod yn fwy anodd cael cwnsler ar gyfer achosion teulu, ac roedd hyn yn ffactor hefyd yng nghyswllt codiadau yn y ffioedd. Cyflwynwyd arolwg o gwmnïau twrneiod a oedd dan gontract i'r Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol ar gyfer gwaith teulu, arolwg a gyflawnwyd gan y Ganolfan Genedlaethol dros Ymchwil Cymdeithasol, ac adroddiad gan Frontier Economics (a gomisiynwyd gan yr Adran Materion Cyfansoddiadol)) – *A market analysis of legal aided services provided by barristers* (Mawrth 2004). Yn y ddau adroddiad nodir i dwrneiod ddweud bod cyfran o Fargyfreithwyr Teulu'n fwy anfodlon gwneud gwaith a ariennir gan y pwrs cyhoeddus yn dilyn cyflwyno'r CFfTG.

Nododd adroddiad Frontier Economics fod 37% o dwrneiod wedi dweud iddynt ar o leiaf un achlysur yn y flwyddyn flaenorol (2003) geisio cael gafael ar wasanaethau bargyfreithiwr a oedd yn meddu ar y profiad a'r arbenigedd priodol a heb allu sicrhau eu gwasanaethau. O'r 18,570 achos teulu a gynhaliwyd gan y twrneiod yn yr arolwg, mewn 420 achos, ni lwyddodd y twrneiod i gael gafael ar wasanaethau bargyfreithiwr penodol (2.3%) (er eu bod o bosibl wedi cyfarwyddo bargyfreithwyr gwahanol wedyn). Yn yr achosion hyn, dywedwyd i hyn beri anfantais mewn 260 o'r 420 achos (oddeutu 1% o gyfanswm yr achosion yn yr arolwg). Yn y mwyafrif llethol o achosion, nid achoswyd anfantais, ond roedd ymdeimlad, ar sail yr adroddiadau anecdotaidd hyn, fod rhai bargyfreithwyr teulu'n rhoi gorau i wneud y gwaith hwn.

Dengys ymchwil[6] a gynhaliwyd yn 2007 gan yr Athro Fenn o Ysgol Fusnes Prifysgol Nottingham fod y defnydd o gwnsler ar gyfer achosion teulu, a gwariant ar hynny, wedi cynyddu ymhell cyn i'r ffioedd gael eu codi yn 2005. Efallai fod y cynnydd yn y defnydd o gwnsleriaid a ddangosir yn yr astudiaeth hon yn dangos nad oedd yr adroddiadau anecdotaidd a wnaed gan dwrneiod i Frontier Economics yn adlewyrchu realiti'r cyflenwad. Dengys yr ymchwil hwn fod bargyfreithwyr wedi ymgymryd fwyfwy â'r gwaith hwn, hyd yn oed ar y cyfraddau llai. Rydym yn hyderus y byddai'r cynigion yn yr ymgynghoriad yn helpu i reoli gwariant cronfeydd cyhoeddus, sicrhau gwerth am arian, a hefyd sicrhau bod gwasanaethau'n dal i gael eu darparu i gleientiaid gan nifer digonol o eiriolwyr cymwys.

[6] Comisiynwyd gan y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol - ar gael yn www.legalservices.gov.uk.

Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb – Crynodeb o'r Sgrinio Cychwynnol

Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn ymgynghori ar newidiadau i'r Cynllun Ffioedd Teulu Graddedig (CFfTG) ar gyfer cymorth cyfreithiol. Dan y cynllun hwn y mae bargyfreithwyr yn cael eu talu am waith mewn achosion teulu. Mae'r ymgynghoriad yn cynnig sawl ffordd o leihau gwariant dan y CFfTG er mwyn gallu gweithredu o fewn y gyllideb ac er mwyn osgoi gorfod cwtogi ar wasanaethau i gleientiaid, ac i gymryd y cam cyntaf i dalu'r un peth am wasanaethau eiriolaeth, p'un ai a oes gan yr eiriolydd gefndir fel twrnai ynteu fel bargyfreithiwr. Mae data arolwg gweithlu'r Bar yn dangos y gallai'r cynigion gael effaith ar ferched sy'n fargyfreithwyr a bargyfreithwyr du lleiafrifoedd ethnic, ar fargryfreithwyr sydd âg anabledd neu broblemau iechyd, neu ar y rhai sydd â chyfrifoldebau gofalu. Rydym felly yn datblygu Asesiad llawn o'r Effaith ar Gydraddoldeb fel y gellir ystyried unrhyw effaith cyn gwneud penderfyniad terfynol.

Profion Effaith Benodol: Rhestr Wirio

Defnyddiwch y tabl isod i ddangos pa mor eang yr ydych wedi ystyried effeithiau posibl eich opsiynau polisi.

Dylech sicrhau bod canlyniadau unrhyw brofion sy'n effeithio ar y dadansoddiad cost a budd wedi eu cynnwys yn y brif sail dystiolaeth; gellir rhoi unrhyw ganlyniadau eraill mewn atodiadau.

Y math o brofion a gynhaliwyd	***Canlyniadau yn y sail dystiolaeth?***	***Canlyniadau mewn atodiad?***
Asesiad o Gystadleuaeth	Na	Na
Prawf Effaith ar Gwmnïau Bach	Ie	Na
Cymorth Cyfreithiol	Ie	Na
Datblygu Cynaliadwy	Na	Na
Asesiad Carbon	Na	Na
Amgylchedd Arall	Na	Na
Asesiad o'r Effaith ar Iechyd	Na	Na
Cydraddoldeb Hil	Ie	Na
Cydraddoldeb Anabledd	Ie	Na
Cydraddoldeb Rhywiol	Ie	Na
Hawliau Dynol	Na	Na
Prawfesur Polisïau Gwledig	Na	Na

Meini prawf yr ymgynghoriad

Mae'r chwe maen prawf ar gyfer ymgynghori fel a ganlyn:

1. Ymgynghori'n eang trwy gydol y broses, gan roi o leiaf 12 wythnos ar gyfer ymgynghoriad ysgrifenedig o leiaf unwaith wrth ddatblygu'r polisi.

2. Bod yn glir ynghylch beth yw eich cynigion, pwy allai gael eu heffeithio ganddynt, pa gwestiynau sy'n cael eu gofyn a'r amserlen ar gyfer derbyn ymatebion.

3. Sicrhau bod eich ymgynghoriad yn glir, yn gryno ac ar gael yn eang.

4. Rhoi adborth ar yr ymatebion a dderbyniwyd, ac ar sut y mae proses yr ymgynghoriad wedi dylanwadu ar y polisi.

5. Monitro pa mor effeithiol yw eich adran gydag ymgynghori, gan gynnwys drwy ddefnyddio cydlynydd dynodedig ar gyfer yr ymgynghoriad.

6. Sicrhau bod eich ymgynghoriad yn dilyn yr arferion gorau ar reoleiddio gwell, gan gynnwys cyflawni Asesiad o Effaith lle bo hynny'n briodol.

Rhaid atgynhyrchu'r meini prawf hyn yng nghorff pob dogfen ymgynghori.

Manylion cysylltu Cydlynydd yr Ymgynghoriad

Os oes gennych unrhyw gwynion neu sylwadau am y **broses** ymgynghori yn hytrach nag am y pwnc a drafodir yn y papur hwn, dylech gysylltu â Gabrielle Kann, Cydlynydd Ymgynghori y Weinyddiaeth Gyfiawnder, ar 020 7210 1326, neu anfon e-bost ati yn consultation@justice.gsi.gov.uk.

Neu, mae'n bosibl yr hoffech ysgrifennu i'r cyfeiriad isod:

Gabrielle Kann
Consultation Co-ordinator
Ministry of Justice
5th Floor Selborne House
54-60 Victoria Street
Llundain
SW1E 6QW

Os yw eich cwynion neu sylwadau yn ymwneud â phwnc a drafodir yn y papur hwn yn hytrach nag â'r broses ymgynghori ei hun, dylech eu cyfeirio at y cyswllt o dan yr adran **Sut i ymateb** yn y papur hwn ar dudalen 27.

© Hawlfraint y Goron
Cynhyrchwyd gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder

Mae'r adroddiad hwn ar gael mewn fformatau eraill drwy wneud cais i
susan.chamberlain@justice.gsi.gov.uk